

Trosolwg o adborth gan y sector gofal cymdeithasol

Galwadau 'dal i fyny' AGC â
darparwyr cofrestredig
gwasanaethau i blant
ac oedolion

Cyflwyniad

Mae gofal cymdeithasol yn wasanaeth hanfodol i filoedd o bobl yng Nghymru, a ategir gan ddull gweithredu seiliedig ar hawliau i hyrwyddo diogelwch a llesiant pobl. Mae pandemig COVID-19 wedi profi gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen ac maent wedi ateb yr her. Gobeithiwn y bydd yr adborth a gawsom yn y ddogfen hon yn helpu i lywio cynllunio gaeaf ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Dangosodd yr ymateb i COVID-19 broffesiynoldeb ac ymroddiad y rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac ymrwymiad gofawyr teuluol, ond gwnaeth hefyd ddangos diffygion a bylchau yn y system.

Mae'r pandemig eisoes wedi newid y ffordd rydym yn profi gofal a chymorth. Mae cymaint yn fwy o wasanaethau a chysylltiadau yn cael eu darparu ar-lein, ac mae eraill wedi newid yn gyfan gwbl. Bu'n rhaid i ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) newid y ffordd roeddem yn gwneud ein gwaith yn ystod y pandemig pan nad oedd yn ddiogel i bobl mewn cartrefi gofal gael unrhyw ymwelwyr, gan gynnwys ein harolygwyr. Cydnabuwyd yr heriau roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hwynebu a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig ag arolygwyr yn mynd i mewn i wasanaethau. Felly rhoddwyd y gorau i gynnal arolygiadau arferol am y tro. Fodd bynnag, dim ond un agwedd ar ein gwaith yw arolygiadau ac, yn hytrach na llaesu dwylo, gwnaethom gynyddu'r lefel o waith goruchwyllo gwasanaethau a wnawn a chyflwyno mesurau cadarn yn gyflym er mwyn craffu ar ofal ledled Cymru, ei fonitro a'i gefnogi.

Gwnaethom ddechrau cynnal galwadau 'dal i fyny' er mwyn ein galluogi i gadw mewn cysylltiad rheolaidd, cynorthwyo darparwyr a deall y materion roeddent yn eu hwynebu. Sgyrsiau wedi'u harwain oedd ein galwadau 'dal i fyny' a nodwyd yr holl adborth ar ffurf i'n galluogi i'w ddadansoddi. Drwy hyn bu modd uwchgryfeirio materion a helpu i roi llais i'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau gofal pan fo ei angen. Gwnaethom hyn ar sawl achlysur, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ein galwadau.

Defnyddiwyd y wybodaeth o'n galwadau 'dal i fyny', hysbysiadau darparwyr a phryderon a godwyd gyda ni er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau lle roedd rheswm i boeni am ddiogelwch a llesiant pobl. Hefyd, siaradwyd yn rheolaidd â chydweithwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd i rannu gwybodaeth. Pan gafwyd pryderon nad oedd modd eu lliniaru heb arolygu'r gwasanaeth yn bersonol, yna parhawyd i wneud hyn.

Crynowyd y themâu allweddol a oedd yn deillio o'n galwadau 'dal i fyny' a rhannwyd adroddiadau trosolwg rheolaidd â rhanddeiliaid ar Grŵp Cydlynu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Gwnaethom hefyd rannu themâu penodol ag asiantaethau perthnasol megis byrddau iechyd ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty, grŵp gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Gwnaeth ein trafodaethau 'dal i fyny' hefyd lywio'r adran 'Cwestiynau Cyffredin' ar ein gwefan (<https://arolygiaethgofal.cymru/coronafeirws-covid-19-cwestiynau-cyffredin>).

Rhydd y ddogfen hon drosolwg o'n galwadau 'dal i fyny' rhwng 30 Mawrth 2020 a 26 Gorffennaf 2020 (10,045 o ymatebion). Mae'n bwysig cydnabod bod y prif themâu a nodir yn y trosolwg hwn yn deillio o ymatebion amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig yng Nghymru ac nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli amgylchiadau darparwyr unigol. Mae pennod dau yn canolbwyntio ar wasanaethau oedolion ac mae pennod tri yn canolbwyntio ar wasanaethau plant.

Gwyddom fod pob gwasanaeth gofal cymdeithasol wedi teimlo effaith COVID-19, gan gynnwys gwasanaethau cymorth cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal i blant. Fodd bynnag, mae wedi cael effaith anghymesur ar gartrefi gofal i bobl hŷn – y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Yng Nghymru, roedd achosion o COVID-19 mewn 35% o gartrefi gofal i oedolion yn ystod y cyfnod hwn. Dengys tystiolaeth ryngwladol (ffynhonnell: World Health Organisation (WHO)) unwaith y bydd COVID-19 mewn cartref gofal *"mae'n anodd ei reoli, yn rhannol oherwydd nifer y bobl sy'n byw gyda'i gilydd yn agos mewn cyfleusterau a gynlluniwyd ar gyfer byw'n gymunedol a'r ffaith bod gofal personol yn gofyn am agosrwydd."*

Felly, er bod y ddogfen hon yn adlewyrchu ein sgysiau 'dal i fyny' â gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig, canolbwyntir ar gartrefi gofal sy'n darparu gofal a chymorth i oedolion, ac mae 1,056 o'r gwasanaethau hyn yng Nghymru.

Rydym yn ymwybodol iawn bod bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u teuluoedd wedi gwneud cryn aberth oherwydd y cyfyngiadau ar ymweliadau a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol. Mae eu dewrder, eu gwydnwch a'u parodrwydd i ddilyn canllawiau iechyd y cyhoedd, yn ddiau, wedi helpu i atal y feirws rhag lledaenu ymhellach mewn cartrefi gofal. Ond mae safbwyntiau'r bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a'u teuluoedd a'u ffrindiau, wrth wraidd ein gwaith. Fel rhan o'n gwaith arolygu 'arferol' siaradwn â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu, os na allant siarad â ni, defnyddiwn adnodd arsylwi i lunio barn am eu llesiant. Wrth i'r pwysau ar y sector cartrefi gofal leihau, roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysig nodi profiadau pobl. Yn ystod wythnos 27 Gorffennaf 2020, siaradodd ein harolygwyr â 228 o bobl a oedd yn byw mewn cartrefi gofal er mwyn clywed am eu profiadau. Defnyddiwyd galwadau ffôn neu Skype i siarad â'r bobl am eu barn a'u teimladau ynghylch yr hyn a oedd wedi digwydd iddynt dros y pedwar mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys wyth oedolyn iau a 15 o blant a phobl ifanc. Ceir crynodeb o'r sgysiau hyn yn y ddogfen hon hefyd.

Hoffem ddiolch i'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a siaradodd yn agored â ni am yr anawsterau a wynebwyd, ond hefyd y ffyrdd arloesol a ddatblygwyd ganddynt i'w galluogi i geisio cadw pobl yn iach ac yn ddiogel. Hefyd, hoffwn ddiolch i arolygwyr AGC a wnaeth y galwadau hyn, yr oedd rhai ohonynt yn anodd iawn wrth glywed am y trawma roedd pobl yn ei brofi.

Dywed llawer efallai na fydd gwasanaethau gofal a chymorth byth yr un peth eto ac y bydd hefyd angen i'r ffordd rydym yn cyflawni ein rôl sicrwydd newid ac addasu. Mae hefyd yn bwysig dysgu gwersi o'r pandemig, i ymateb i ail don neu ddatblygu cydnheredd ar gyfer mathau eraill o bandemig yn y dyfodol.

Dull

Gwnaed galwadau ffôn 'dal i fyny' rhwng 30 Mawrth 2020 a 26 Gorffennaf 2020.

I ddechrau gwnaed galwadau bob wythnos ac yna bob pythefnos, gan gydnabod y pwysau ar ddarparwyr yn fewnol a thrwy alwadau gan sawl asiantaeth.

Cysylltwyd â rhai darparwyr yn amlach os oedd angen mwy o wybodaeth arnom neu os oedd angen darparu cymorth ychwanegol, er enghraifft bod achosion yn y cartref gofal a oedd yn effeithio ar nifer mawr o bobl.

Ni ofynnwyd pob cwestiwn bob wythnos, ond ailadroddasom rhai er mwyn ein galluogi i ddeall profiadau darparwr dros amser. Datblygodd cwestiynau hefyd er mwyn eu mireinio i gael manylion pellach, neu i gwmpasu themâu newydd ynghylch cynnydd y pandemig a'r effeithiau ar ddarparwyr gofal i oedolion.

Canfyddiadau allweddol i'w hystyried yn y dyfodol

- Pwysigrwydd dull seiliedig ar hawliau, gan sicrhau bod y bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol, a'u teuluoedd a'u heiriolwyr, yn cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau
- Cydnabod, a lleihau i'r eithaf, yr effaith y mae methu â gweld teulu a ffrindiau yn ei chael ar lesiant meddwl llawer o bobl
- Pwysigrwydd strategaeth gyfathrebu gydgysylltiedig sy'n lleihau dyblygu ac yn amlwg yn tynnu sylw at faterion allweddol a newidiadau i ganllawiau
- Mynediad parhaus i hyfforddiant a chymorth atal a rheoli heintiau
- Sicrhau bod mynediad hawdd i gyfarpar diogelu personol (PPE) digonol a bod y ffordd y dylid ei ddefnyddio yn glir
- Sicrhau bod mynediad hawdd i brofion a bod canlyniadau ar gael yn amserol
- Pwysigrwydd rhwydweithiau cymorth i reolwyr a gweithwyr gofal gan gydnabod ynyswch y darparwyr bach niferus yng Nghymru
- Pwysigrwydd parhad staffio oherwydd y risg gynyddol o drosglwyddo'r haint ymhlith staff asiantaeth os ydynt yn gweithio mewn gwasanaethau gwahanol
- Cydnabod bod darparwyr yn bartneriaid gofal, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, fel sy'n wir am aelodau o'r teulu i lawer o bobl.

Pennod un

Lleisiau pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal

1. Sut beth fu hi i fyw yn y cartref gofal dros yr ychydig fisoedd diwethaf?

Bu'n gyfnod heriol i bobl. Yn gyffredinol dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi cael cryn gefnogaeth gan y staff a dywedodd rhai o'r bobl fod eu gofal wedi gwella.

Roedd y bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu diogelu gan y staff. Bu llawer o newidiadau ond roeddent yn deall bod angen gwneud hyn er mwyn eu cadw'n ddiogel. Roedd gweld eisiau teulu ac ymwelwyr wedi bod yn broblem i lawer o'r bobl ond bu'r staff yn codi eu hysbryd. Bu diflastod yn broblem i rai hefyd ond dywedodd llawer o'r bobl wrthym y cynhaliwyd mwy o weithgareddau a gynlluniwyd. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Mae wedi bod yn dda iawn – teimlo'n ddiogel iawn yn sgil y mesurau ac amgylchedd cyfeillgar braf. Dim byd i gwyno amdano. Mae'r staff wedi gweithio'n galed iawn ac wedi dilyn yr holl fesurau ac wedi bod yn gwisgo masgiau a bod yn hapus iawn*
- *Gwych. Mae fel byw mewn gwesty pum seren. Mae'r staff yn amyneddgar iawn; hyd yn oed y gofalmwr ifanc. Maen nhw wedi aberthu eu ffordd o fyw arferol er ein mwyn – mae rhai wedi byw gyda ni*
- *Mae wedi bod yn iawn yn y cartref – mae'r staff wedi bod yn gofalu amdany'n nhw ac mae'r staff wedi bod yn wych. Mae'r bwyd yn dda iawn ac mae digon ohono ar gael. Hefyd yn gwneud rhai gweithgareddau, cwisiau*
- *Mae digon o bethau wedi bod ar gael – gweithgareddau crefft ac rwyf wedi bod yn paentio hefyd*
- *Yn iawn, braidd yn ddiflas ond heb gael unrhyw broblemau*
- *Wedi diflasu dros yr ychydig fisoedd diwethaf – y teledu wedi bod yn fendith. Methu gweld y teulu ac yn gweld eu heisiau*
- *Mae wedi bod yn flinedig i bawb ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen*
- *Mae wedi rhoi straen ar bawb, ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen ac rwy'n ffodus iawn*

2. Sut mae'r staff wedi eich helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch teulu?

Dywedodd y bobl wrthym fod y staff wedi darparu llawer o gymorth i sicrhau eu bod yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u hanwyliaid. Roedd hyn yn cynnwys ysgrifennu llythyrau, galwadau ffôn dyddiol, galwadau Zoom a FaceTime, gan fanteisio ar dechnoleg.

Mae eraill wedi gallu cael ymweliadau drwy'r ffenestr ac yn fwy diweddar yn yr ardd. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Mae fy mhlant yn dod â chacennau ac yn eu gadael wrth y drws. Rwy'n siarad â'r teulu dros y ffôn ac ar Facebook ac maen nhw'n dod at y ffenestr i'm gweld*
- *Ie, defnyddio'r ffôn a sesiwn Zoom. Wedi fy helpu i ddal y trê'n i fynd i angladd fy mam, gan wisgo PPE ac ati*
- *Mae'r ferch yn dod at y ffenestr i siarad a gallaf ffonio perthnasau os oes angen, ffonio ac anfon negeseuon testun. Mae gen i iPad hefyd. Mae llawer o ffrindiau yn fy ffonio*
- *Rwyf wedi gallu siarad â theulu ddwywaith y dydd dros y ffôn yn yr ystafell. Mae teulu yn dod i ymweld yn y cartref. Ry'n ni'n cwrdd yn y gazebo yn yr ardd*
- *Maen nhw wedi fy annog i gysylltu â'm teulu, fy mab*

3. Ydych chi'n gallu cael ymwelwyr?

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw wedi gallu cael ymwelwyr, naill ai yn yr ardd neu drwy'r ffenestr. Nododd y bobl fod y staff wedi bod yn gefnogol iawn o ran galluogi'r ymweliadau hyn i fynd rhagddynt. Cadwyd pellter cymdeithasol yn ystod ymweliadau. Roedd rhai o'r bobl yn siomedig mai dim ond amser cyfyngedig a roddwyd ar gyfer ymweliadau ond nododd eraill eu bod wedi cael dewis o amseroedd ymweld, ac roedd eraill yn ei chael hi'n anodd methu â chyffwrdd â'i gilydd. Ar y cyfan, bu'r gallu i weld teulu ac anwyliaid yn gadarnhaol iawn ac roedd wedi codi ysbryd y bobl. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Mae gennym ni babell fawr yn yr ardd, ry'n ni'n ffodus iawn*
- *Mae wedi bod yn hyfryd gweld fy nheulu yn yr ardd ac mae wedi codi fy ysbryd*
- *Mae fy merch yn ymweld â mi a byddaf yn ei gweld hi yr wythnos nesaf*
- *Nid tan ar ôl 6 Awst – mae fy nheulu i'n dod i siarad â mi drwy'r ffenestr*
- *Mae yna babell fawr yn yr ardd a gall aelodau o'r teulu ymweld. Mae bwrdd a sgrin o'u blaenau a byddan nhw'n gwisgo eu masgiau a bydda i y tu mewn i'r ffenestri Ffrengig*
- *Ddim am gael ymwelwyr oherwydd mae'n anodd methu â chyffwrdd â phobl na'u cofleidio. Gallu cael ymwelwyr yn yr heuldy neu'r tu allan – bydd y gofalwyr yn sicrhau bod y bobl yn cadw eu pellter*
- *Roedd yn anodd peidio â chyffwrdd â'm partner a rhoi fy mreichiau amdani*

- *Nid yw'r staff wedi egluro pam bod ymweliadau gan berthnasau yn yr ardd yn 20 munud yn unig*

4. A yw'r staff wedi egluro beth sydd wedi bod yn digwydd a pham y bu newidiadau?

Ar y cyfan dywedodd y bobl eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa, yr angen am newidiadau, pam bod y staff yn gwisgo PPE, pam nad oedd modd cael ymwelwyr a'r profion. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ddarparu papurau newydd a dangos y newyddion ar y teledu fel eu bod yn dysgu mwy am y sefyllfa. Nid yw pawb wedi dymuno cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei fod yn gwneud iddynt deimlo'n isel. Dywedodd rhai o'r bobl nad oedd yn hawdd cael y wybodaeth ddiweddaraf pan oeddent yn eu hystafelloedd. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Eglurodd y Metron bopeth*
- *Eglurodd bopeth gan gynnwys pam na allem gael ymwelwyr*
- *Mae'r staff wedi bod yn fendigedig ac maent bob amser yn rhoi gwybod i mi beth sy'n digwydd*
- *Mae gen i deledu yn fy ystafell felly byddaf yn dilyn y newyddion ac rwy'n gwybod beth sy'n digwydd*
- *Ar y cyfan, pan fyddaf yn fy ystafell, nid yw mor hawdd*
- *Mae'r staff wedi egluro'r sefyllfa ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl am COVID a pham eu bod yn cymryd yr holl fesurau. Mae'r staff wedi bod yn cymryd tymheredd pawb bob dydd ac yn egluro pam eu bod yn gwneud hynny*
- *Maen nhw wedi bod yn wych. Mae'r staff wedi bod yn arbennig*

5. Pa fath o bethau sydd wedi mynd yn dda i chi?

Ar y cyfan nododd y bobl fod y staff wedi ceisio cadw popeth mor normal â phosibl. Roedd y staff wedi bod yn llawen ac yn gefnogol. Soniodd llawer o'r bobl am y cynnydd mewn gweithgareddau er mwyn eu cadw'n brysur. Clywsom fod mwy o sylw i hylendid a glendid. Cadwyd mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd ac anwyliaid mewn gwahanol ffyrdd. Nododd y bobl eu bod wedi teimlo'n ddiogel. Ni fu'n amser hawdd i rai o'r bobl ac roeddent wedi diflasu. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Mae'r staff wedi gwneud mor dda, rwy'n teimlo'n hapus ac yn ddiogel*
- *Rwy'n sylweddoli nad yw pethau fel roedden nhw, ond mae'r staff mor gymwynasgar ac mor llawen drwy'r amser*
- *Dim problemau o gwbl, mae'r staff yn fendigedig ac wedi gofalu amdanaf yn dda iawn*

- *Rwyf wedi symud i ystafell en-suite fwy o faint sydd â llinell ffôn fel y gall fy mab fy ffonio. Trefnwyd llawer o weithgareddau*
- *Rwyf wedi gallu treulio fy amser yn ysgrifennu erthygl hanesyddol a gobeithio y gallaf ei chael wedi'i theipio a'i chyhoeddi'n fuan felly mae wedi fy nghadw i'n brysur*
- *Mae'r staff wedi edrych ar fy ôl, rwyf wedi mynd i'r afael â'm problemau meddygol, rwy'n teimlo'n iachach ac yn fwy heini a gallaf nawr symud o gwmpas. Nawr teimlaf fy mod yn gallu mynd adref*
- *Mae'r lle fel pin mewn papur, rwy'n teimlo'n ddiogel*
- *Mae'r gofalwyr wedi bod mor ofalus, yn enwedig o ran gofal personol. Maen nhw wedi gwneud popeth fel sydd i fod er mwyn sicrhau nad yw'r feirws yn dod yma*
- *Mae'r staff wedi bod yn hapus ac yn gadarnhaol iawn ac rwyf wedi teimlo'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn. Wedi gwneud ambell weithgaredd ac ymarfer corff. Mae'r gofal a'r cymorth wedi bod yn dda iawn, wedi bod yr un peth â chyn COVID-19 os nad yn well – staff yn ein diogelu, maen nhw wedi bod yn wych*
- *Gwrando ar gerddoriaeth, mynd am dro, ystafell gemau sydd ag X-Box ac ystafell sinema. Wedi cadw'n brysur*
- *Dim byd o gwbl. Rwy'n eistedd yma 14 awr y dydd*
- *Mewn rhan fawr o'r cartref, dim i'w wneud yma, nid oes digon o staff i weithio gyda chi un i un, diffyg gweithgareddau. Mae'r staff wedi bod yn wych ac maen nhw'n gofalu amdano chi'n dda*

6. A hoffech chi newid unrhyw beth?

Nododd y rhan fwyaf o'r bobl nad oedden nhw am newid unrhyw beth. Roeddent yn derbyn bod angen rhoi cyfyngiadau ar waith ond maent yn edrych ymlaen at weld eu teuluoedd y tu mewn i'r cartref eto, ynghyd ag ymweliadau gan y trinydd gwallt a gallu mynd allan. Ni fu'n gyfnod hawdd i rai o'r bobl. Cyfeiriodd rhai o'r bobl at bethau yr hoffent eu newid, gan gynnwys mwy o staff a gweithgareddau. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Petai modd newid rhywbeth, fe fydden ni 20 mlynedd yn iau ac yn byw gartref*
- *Mae'r staff wedi bod yn dda iawn, mae'r rheolwr yn wych ac mae'r bwyd yn dda*
- *Dim byd yn ymwneud â COVID-19, maen nhw wedi gwneud yn dda*

- *Gobeithio mynd allan yn fuan, i'r ardal leol, i gwrdd â gwahanol bobl, mynd i'r llyfrgell*
- *Mae'r staff wedi gwneud popeth posibl i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff wedi bod yn gadarnhaol iawn, sydd wedi eu cadw i fynd*
- *Dim ond i'r preswylwyr gael y rhyddid i ymweld â swigen y teulu. Teimlaf fy mod i'n cynrychioli'r preswylwyr eraill am na allan nhw gyfleu eu barn*
- *Dim byd mewn gwirionedd. Er fy mod i wedi gweld eisiau'r trinydd gwallt a'r trinydd traed oherwydd dy'n nhw ddim wedi gallu dod. Byddan nhw'n dychwelyd pan fydd hi'n bosibl*
- *Ni fyddai am fod unrhyw le arall, dyma ei chartref ac mae'n hapus yma. Yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth mae'n eu cael. Maen nhw'n griw arbennig. Mae'r rheolwr yn nodi'r hyn mae'r bobl yn ei ddweud ac yn ceisio diwallu eu hanghenion*
- *Mae'r staff yn trin y bobl yn garedig. Rwyf wrth fy modd yma*
- *Mwy o bethau i'w gwneud a mwy o staff ar ddyletswydd*
- *Cynllunio ar gyfer cyfyngiadau symud pellach fel bod pawb yn gwybod beth i'w wneud, gan gynnwys y teulu*
- *Wn i ddim – nid wyf yn hapus yma o gwbl*

Lleisiau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi gofal

1. Sut beth fu hi i fyw yn y cartref gofal dros yr ychydig fisoedd diwethaf?

Ar y cyfan nododd y bobl ifanc eu bod wedi diflasu i raddau am nad oedd modd iddynt fynd allan i weld ffrindiau na gwneud yr hyn y byddent yn ei wneud fel arfer. Yn amlwg, bu'n anodd i rai nad oeddent yn gallu gweld eu teuluoedd wyneb yn wyneb, ond ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio aed i'r afael â hyn. Nododd y bobl ifanc fod y staff yn gefnogol ac yn eu diddanu drwy gemau a thrwy fynd am dro. Roedd un o'r bobl ifanc wrth ei fodd gyda beic a helmed newydd. Bu modd i'r bobl ifanc dreulio amser yng ngerddi'r cartrefi oherwydd y tywydd braf. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Mae wedi bod yn iawn ond ni allwn fynd allan heb y staff*
- *Lan a lawr. Yn rhwystredig ar adegau ac wedi gweld eisiau fy ffrindiau. Mae'r staff wedi fy nghadw i'n brysur. Ry'n ni'n mynd allan am dro. Mae llawer o bethau i'w gwneud yn y tŷ – pŵl, bag bocsio, gemau, teledu ac ati. Anodd dygymod â gwneud y pethau hynny*

- *Mae wedi bod yn ddiflas ac yn anodd methu gweld teulu a ffrindiau*

2. *Sut mae'r staff wedi eich helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch teulu?*

Roedd adborth y bobl ifanc yn gymysg o ran cadw mewn cysylltiad â theulu. Mae'r rhan fwyaf wedi gallu cadw mewn cysylltiad drwy FaceTime a galwadau ffôn. Gwnaeth un gwasanaeth brynu ffôn symudol i'r person ifanc yn benodol ar gyfer hyn. Dechreuodd un person ifanc siarad â'i mam am y tro cyntaf mewn blwyddyn, na fyddai wedi digwydd fel arall efallai. Nid oedd rhai o'r bobl ifanc mewn cysylltiad a nodwyd bod gweithwyr cymdeithasol yn araf yn gwneud trefniadau. Nid yw'n glir ai'r cyfyngiadau symud oedd yn gyfrifol am hyn neu a fyddai wedi bod yn wir beth bynnag. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Wedi cadw mewn cysylltiad dros y ffôn a thrwy Skype ac wedi gweld fy nheulu yn y parc*
- *Dim ond mewn cysylltiad â'm chwaer. Cadw mewn cysylltiad dros y ffôn. Prynodd y cartref ffôn symudol iddo – mae'n dda ei fod yn gallu cadw mewn cysylltiad fel mae'n dymuno. Yn cadw mewn cysylltiad â hi dros y ffôn*
- *Rwyf newydd ddechrau siarad â'm mam eto ers dros flwyddyn. Mae'r staff wedi fy helpu i wneud hyn drwy adael i mi ddefnyddio FaceTime, ac maen nhw wedi bod yn wych. Rwyf wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â ffrindiau*
- *Wedi mynd allan i weld Dad pan oedd hawl gwneud hynny, ei ffonio, siarad â ffrindiau ar yr Xbox*
- *Wedi cadw mewn cysylltiad â theulu drwy Skype a FaceTime.*
- *Mae'r staff wedi bod o gymorth mawr ond nid wyf mewn cysylltiad â'm teulu*

3. *Ydych chi'n gallu cael ymwelwyr?*

Roedd yr atebion yn amrywio rhwng ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol a theulu. Ydw neu nac ydw oedd llawer o'r atebion ac mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau o'r ymatebion. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Nid wyf yn cael ar hyn o bryd oherwydd rwy'n aros i'r gweithiwr cymdeithasol wneud y trefniadau*
- *Bydd fy ngweithiwr cymdeithasol yn ymweld mewn ychydig wythnosau*
- *Gwelais fy nheulu y tu allan gan siarad dros y glwyd. Rwy'n deall yr angen i gadw pellter cymdeithasol ac rwy'n gwybod bod gan fy nhad-cu broblemau iechyd felly mae'n fregus ac mae'n rhaid cadw draw. Rwy'n dechrau mynd allan yn amlach nawr*

- *Rwy'n gobeithio gweld fy nhad cyn bo hir. Rwy'n defnyddio Skype i siarad â'm gweithiwr cymdeithasol*

4. A yw'r staff wedi egluro beth sydd wedi bod yn digwydd a pham y bu newidiadau?

Roedd y bobl ifanc yn gadarnhaol wrth sôn am y ffordd roedd y staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn dilyn y newyddion neu'n cael trafodaethau yn ystod cyfarfodydd. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Mae'r staff yn dweud wrthym pan fydd rheolau newydd a beth mae'n ei olygu i ni fel mynd allan yn amlach a gallu mynd i'r traeth*
- *Rwyf wedi gwyllo'r newyddion ac mae'r staff wedi dweud wrthym pan mae'r rheolau wedi newid hefyd. Mae hyn wedi golygu ein bod ni'n gallu gwneud mwy*
- *Ydyn. Gwranddo ar y radio. Nid wyf yn hoffi gwyllo'r newyddion ar y teledu. Nid wyf yn meddwl bod y feirws gynddrwg ag y mae pobl yn ei ddweud. Nid yw aros i mewn cymaint wedi gwneud lles i mi. Rwy'n colli fy nhymer yn fwy*

5. Pa fath o bethau sydd wedi mynd yn dda i chi?

Roedd y bobl ifanc yn gadarnhaol iawn wrth sôn am yr hyn a oedd wedi mynd yn dda iddynt. I rai, roedd addysg yn ffactor cadarnhaol boed yn mynychu'r ysgol neu'n cael addysg gartref. Nodwyd bod cydberthnasau â'r staff yn gadarnhaol iawn a'u bod wedi rhoi cynnig ar weithgareddau newydd na fyddent wedi eu gwneud fel arall efallai. Roedd rhai enghreifftiau da iawn o'r ffordd mae pobl wedi newid eu bywydau'n sylweddol drwy beidio â rhedeg i ffwrdd a hyd yn oed roi'r gorau i gyffuriau. Hefyd roedd rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn cysylltu ag aelodau o'r teulu a oedd wedi ymddieithrio. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Rwyf wedi bod yn mynd i'r ysgol bob dydd (mae gan y darparwr ei ddarpariaeth addysg ei hun). Rwy'n hoffi chwarae gyda wrestlo WWE ac fe hoffais i fynd i nofio yn y môr y diwrnod o'r blaen*
- *Gwneud rhai pethau gyda'r staff. Prynodd y cartref feic iddo. Rwy'n ei hoffi ac yn mynd allan arno'n aml. Fe ges i helmed. Nawr rwy'n gallu mynd allan rwy'n hoffi gweld fy ffrindiau eto*
- *Pan symudais i mewn gyntaf roeddwn i'n cael fy hun i drwbwl ac yn rhedeg i ffwrdd ond rwyf wedi rhoi'r gorau i wneud hynny nawr ac yn gwneud fy mhethau fy hun*
- *Fe roddodd y gorau i gyffuriau oherwydd ni allai fynd allan. Amser i sortio fy hun allan. Fe fydden ni wedi colli arni heb help y staff. Mae'r staff yn dda iawn. Siarad, gallu siarad â nhw ac maen nhw'n rhoi cyngor da. Heb y cyfyngiadau symud bydden ni wedi cario mlaen i wneud yr hyn roeddwn ni'n ei wneud, roedd yn beth da yn y pen draw, gwnaeth fy helpu i gallio. Wedi helpu cymaint*

- *Wedi canolbwyntio llawer mwy ar sgiliau byw'n annibynnol. Bod mewn sefyllfa well i symud ymlaen fel rheoli arian. Fel arfer fydden ni wedi bod allan bob dydd felly roedd yn dda cael yr amser i ganolbwyntio mwy ar hyn*
- *Mae'r berthynas â'r staff yn well*
- *Rwyf wedi ailfeithrin perthynas â'm brawd (dros FaceTime) nad oeddwn i wedi ei weld ers dwy flynedd*

6. A hoffech chi newid unrhyw beth?

Rhannodd llawer o'r bobl ifanc eu rhwystredigaeth nad oeddent yn gallu gweld teulu'n amlach a'u bod yn 'gaeth' i'r cartref. Roeddent yn gweld eisiau cymdeithasu â ffrindiau a mynd i'r siopau ond roedd nifer o'r bobl ifanc o'r farn bod pethau'n iawn ac nad oedd angen newid unrhyw beth. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

- *Hoffen i fod wedi gweld fy nheulu a hoffen i fynd i'r siop. Mae'r staff yn dod â phethau ond hoffen i fynd i'r siop fy hun*
- *Mae wedi bod yn anodd bod gartref ac rwy'n teimlo'n hapusach fy mod i'n gallu mynd allan yn fwy. Hoffen i fod wedi mynd allan yn fwy a chwarae pêl-droed gyda'm tîm. Rwy'n edrych ymlaen at weld hynny'n ailddechrau*
- *Na, wedi byw yma ers blwyddyn. Mae'n iawn*
- *Na, rwy'n fodlon ar bethau*
- *Na, mae wedi bod yn anodd, y staff yn dda iawn. Yn gwneud eu gorau*
- *Ddim yn gallu meddwl am ddim byd. Am i bethau fod yn normal eto*

Pennod dau

Crynodeb o'n sgysiau 'dal i fyny' ag Unigolion Cyfrifol a rheolwyr cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau cymorth cartref

Roedd ein galwadau 'dal i fyny' ag arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau gofal yn amhrisiadwy i'n helpu i ddeall y materion roeddent yn eu hwynebu, yn ogystal â cyfle i ddarparu cymorth. Newidiodd y pryderon a'r materion a godwyd yn ystod ein galwadau. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r prif themâu a oedd yn codi yn ystod y sgysiau hyn. Mae pennod pedwar yn ategu hyn drwy ddarparu dadansoddiad meintiol.

Ar y dechrau, y prif bryderon oedd llesiant defnyddwyr gwasanaethau a diffyg argaeledd PPE, ac yna bryderon am reoli'r gwasanaeth pan oedd staff wedi cael llythyrau gwarchod neu'n hunanyysu am fod ganddyn nhw, neu aelod o'r teulu, symptomau COVID-19.

Yn ogystal â'r pryderon hyn amharwyd ychydig ar gyflenwadau bwyd a meddyginiaeth, er yr aed i'r afael â hyn yn gymharol gyflym.

Mae'r adborth hwn gan ddarparwr cymorth cartref yn dangos lefel y pryder am gyflenwadau PPE:

- *405 o alwadau'r dydd*
- *Llunio rhestr o'r bobl hynny sydd angen gwisgo masg*
- *Menig maint canolig yn brin - dim ond digon am wythnos a hanner*
- *Ffedogau'n iawn, cael mwy yfory*
- *Wedi gofyn am PPE ar Facebook - dylai rhywun sy'n gwneud gorchuddion wyneb fod â 100 erbyn dydd lau*
- *Paentiwr wedi rhoi 100 o fasgiau*

Erbyn dechrau mis Mai, roedd cyflenwadau PPE wedi sefydlogi a gwnaethom roi'r gorau i holi am hyn yn benodol.

Llesiant y bobl

Clywsom am y ffyrdd roedd darparwyr yn hyrwyddo llesiant y bobl. Roedd hyn yn cynnwys rheolwyr a staff yn cysgu ar y safle er mwyn lleihau'r risgiau i'r bobl.

Cydnabu'r darparwyr bwysigrwydd cynnal llesiant cymdeithasol ac emosiynol y bobl yn ystod y cyfyngiadau symud. Wrth i weithgareddau allanol ddod i ben, roedd angen amser ar y darparwyr i addasu a datblygu cynlluniau amgen. Cydnabu llawer o'r darparwyr rôl allweddol cydlynwyr gweithgareddau. Dangosodd yr ymatebion fod y darparwyr yn teimlo y byddent yn fwy parod ar gyfer unrhyw gyfyngiadau pellach posibl.

Cawsom wybod hefyd am wahanol weithgareddau cymdeithasol a chorfforol (yr oedd rhai ohonynt wedi'u cyflwyno fel gweithgareddau newydd i'r unigolion yn ystod y pandemig) a fu'n hanfodol i lesiant meddyliol, corfforol a chymdeithasol y bobl.

Dywedodd un darparwr gwasanaeth i oedolion iau fod y ffaith nad oedd unrhyw ymwelwyr na gweithgareddau allanol wedi bod o fudd i rai o'r bobl a oedd wedi ymdawelu a setlo'n fwy.

Dangosodd ymatebion y darparwyr fod rhai o'r bobl wedi ymdopi'n dda yn ystod y pandemig, ond effeithiwyd ar iechyd emosiynol a meddyliol eraill. Erbyn diwedd mis Mehefin roedd rhai o'r darparwyr yn nodi bod rhai o'r bobl bellach yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cyfyngiadau. Roedd hyn wedi effeithio ar ymddygiad rhai o'r bobl yr oedd eu hanghenion wedi cynyddu o'r herwydd a bu angen darparu mwy o ofal a chymorth; nodwyd bod ynyswch yn ffactor sylweddol a oedd yn effeithio ar rai o'r bobl. Nododd darparwr cartref gofal:

- *...gwasanaeth bach yn cefnogi pobl ag amrywiaeth o anghenion cymhleth iawn, ymddygiad gwaeth wedi golygu bod angen i bobl gael cymorth 2:1 ychwanegol a hyfforddiant ychwanegol.*

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Gwnaethom fonitro nifer yr hysbysiadau a gafwyd yn ein hysbysu bod darparwr wedi gwneud cais am awdurdodiad DoLS. Rhwng 1 Mawrth 2020 a 31 Gorffennaf 2020 cafwyd 1,401 o hysbysiadau (o gymharu â 1,710 ar gyfer yr un cyfnod yn 2019). Gwnaethom drafod y rhesymau dros y ceisiadau yn ystod ein galwadau 'dal i fyny'. Roedd rhai ar gyfer pobl newydd a oedd yn symud i mewn i'r cartref gofal, roedd eraill ar gyfer adnewyddu awdurdodiadau presennol, a gwnaed rhai am fod y darparwr yn credu bod angen i gyfyngiadau COVID-19 gael eu hawdurdodi ar gyfer rhai pobl.

Cyswllt â theulu a ffrindiau

Gwnaeth llawer o ddarparwyr benderfyniad cynnar i gyfyngu ar ymwelwyr, cyn i'r rheoliadau ddod i rym. Yn gyffredinol, lle roedd pobl yn cyrraedd diwedd eu hoes, cydnabu darparwyr gwasanaethau bwysigrwydd cyswllt â'r teulu a gadawyd i deulu agos ymweld.

Nododd darparwyr fod hyrwyddo cyswllt rhwng unigolion a'u teulu a'u ffrindiau wedi bod yn bwysig wrth gefnogi a hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant y bobl. Bu technoleg yn hanfodol i hyrwyddo llesiant y bobl drwy gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Cydnabuwyd her benodol ailgysylltu â theulu pobl â dementia. Nododd un arolygydd:

- *Mae'r darparwr wedi prynu llechi [digidol] fel y gall teuluoedd gadw mewn cysylltiad â'u perthnasau drwy Skype neu FaceTime. Os na ellir gwneud hynny anfonir lluniau a gwneir galwadau ffôn.*

Pan oedd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu hynny, roedd darparwyr wedi hwyluso cyswllt â theulu a ffrindiau mewn ardaloedd awyr agored. Roedd cyflymder rhoi trefniadau ar waith yn amrywio; a nododd darparwyr eu bod wedi poeni am y risg o drosglwyddo COVID-19. Roedd y rheol 28 diwrnod i gartref gofal fod yn rhydd o haint cyn derbyn preswylwyr newydd hefyd wedi effeithio ar drefniadau cyswllt oherwydd

roedd yn rhaid i gartrefi ddilyn canllawiau llym os cafwyd prawf positif. Roedd anghenion iechyd meddwl rhai preswylwyr yn golygu na fyddai'r canllawiau awyr agored yn gweithio iddynt. Ymhlith adborth darparwyr cartrefi gofal roedd:

- *...ry'n ni wedi cael ymweliadau yn y maes parcio i breswylwyr sydd wedi gadael pawb yn eu dagrau. Mae un pâr wedi bod yn briod 60 mlynedd a dyma'r hiraf maen nhw wedi bod ar wahân. Roedd mor emosiynol gweld faint roedd yn ei olygu iddyn nhw weld ei gilydd, sy'n dangos pa mor bwysig yw'r ymweliadau hyn.*
- *O ddydd Llun 22 Mehefin mae'r cartref yn caniatáu ymwelwyr unwaith eto. Mae cynllun manwl ar waith ar gyfer hyn. Mae system apwyntiadau ar gael i ymwelwyr ei defnyddio. Cynhelir ymweliadau hanner awr gyda nifer cyfyngedig yn y bore a'r prynhawn. Mae ardal eistedd yn yr ardd o dan gazebo. Mae'r ymwelwyr yn gwybod y cymerir eu tymheredd wrth gyrraedd ac ni chaiff unrhyw un fynediad os oes ganddyn nhw dymheredd. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob agwedd ar yr ymweliad. Mae'r preswylwyr wedi bod yn rhan o'r penderfyniadau a wnaed ynghylch ymwelwyr ac maen nhw'n edrych ymlaen at weld eu teuluoedd eto. Mae wedi bod yn dda i'w hiechyd meddwl.*

Roedd rhai darparwyr wedi dechrau meddwl am drefniadau'r gaeaf, gan ganiatáu ymweliadau wedi'u rheoli ag ardaloedd dynodedig o'r cartref, megis yr heuldy. Gosodwyd sgriniau a pharwydydd er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Roedd sawl darparwr yn poeni am y tywydd cyfnewidiol ac effaith hyn ar hwyluso cyswllt. Mor gynnar â chanol mis Mehefin dangosodd ymatebion y darparwyr eu bod wedi dechrau meddwl am ddatblygu ffyrdd o groesawu ymwelwyr yn ôl, gan ystyried mesurau cadw pellter cymdeithasol a rheoli heintiau wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Roedd rhai o'r darparwyr am wybod sut y gallent lacio'r cyfyngiadau symud yn effeithiol i bobl â dementia na fyddent yn deall pam na allai eu hanwyliaid ddod yn agos. Nododd darparwr cartref gofal:

- *...hoffen i gael mwy o gyngor ar sut i symud ymlaen wrth ganiatáu ymwelwyr unwaith eto. Mae paratodau ar waith i droi dwy ystafell yn 'ystafelloedd ymweld'. Byddai modd i ymwelwyr ddod i mewn i'r ystafell o'r tu allan a byddai sgriniau Perspex rhwng y preswylwyr a'u hymwelwyr.*

Roedd y trafodaethau yn cynnwys gwasanaethau nad oedd y preswylwyr wedi gallu eu derbyn, megis trinwyr gwallt a thrinwyr traed yn fwyaf nodedig.

Cefnogi gweithwyr gofal

Roedd pwysigrwydd cyfathrebu â gweithwyr gofal a rheolwyr yn rheolaidd yn amlwg yn ymatebion y darparwyr drwy'r arolwg hwn. Roedd hyn yn hynod bwysig yn y cyfnod pan oedd y canllawiau'n datblygu, gyda phethau'n newid ac yn cael eu haddasu'n aml. Tanlinellodd ein trafodaethau y rôl arwain bwysig wrth rannu gwybodaeth a chanllawiau cenedlaethol, a darparu cyngor a chymorth i'r staff. Mynegodd llawer o'r darparwyr cymaint roeddent yn edmygu eu staff ac yn

ddiolchgar iddynt am ddod ynghyd i hyrwyddo llesiant y bobl maent yn gofalu amdanynt.

Nododd nifer bach o wasanaethau effaith sylweddol ar gapasiti staffio yn ystod y pandemig. I rai roedd hyn yn ymwneud â nifer y staff pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) roeddent yn eu cyflogi neu staff a oedd wedi cael llythyr gwarchod. Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr yn ymwybodol o Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu; dywedodd un darparwr fod yr asesiad risg yn ddefnyddiol iawn a'i fod wedi ei ddefnyddio yn ei wasanaeth yn Lloegr hefyd.

Roedd gallu rhai darparwyr mawr (yn enwedig awdurdodau lleol) i adleoli staff ble roedd eu hangen wedi helpu i sicrhau parhad rhai gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd hyn yn arwain at heriau o ran hyfforddiant a pharatoi'r staff ar gyfer eu rolau newydd, a nodwyd y dylid mynd i'r afael â hyn pe byddai ail don. Ystyriwyd bod hyfforddiant ar gyfer pob cyflogai, er enghraifft hyfforddiant 'Cyfeillion Dementia', yn ffordd ymlaen er mwyn helpu staff a adleolwyd i ddeall y cymorth sydd ei angen ar bobl hŷn â dementia. Dywedodd un darparwr wrthym:

- *Rydym wedi datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer COVID-19 sy'n cynnwys lefelau staffio is os na fydd llawer o staff ar gael ac mae'n amlinellu'r lefelau staffio diogel gofynnol ar gyfer y cartref. Gan mai tîm bach o staff sydd gan y cartref, gall absenoldeb staff o unrhyw fath gael effaith. Mae rheolwr y cartref yn goruchwyllo hyn bob dydd.*

Mae'r dyfyniad hwn yn nodweddiadol o gryn dipyn o'r hyn a glywsom:

- *Mae'r timau wedi bod yn wydn ac yn ymrwymedig. Ni fu unrhyw gwyno gan weithwyr gofal rheng flaen am eu rolau na'r cymorth sydd ei angen i helpu pan fydd prinder staff.*

Un o ganlyniadau anfwriadol sicrhau lefelau staffio diogel oedd y risg o ddefnyddio staff asiantaeth sy'n gweithio mewn gwahanol wasanaethau gofal ac felly sy'n cynyddu'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Llesiant staff

Bu effaith COVID-19 ar staff cartrefi gofal lle cafwyd achosion yn sylweddol. Hyd yn oed yn y gwasanaethau hynny lle na chafwyd achosion, bu cryn bryder am y sefyllfa.

Clywsom am y gwahanol ffyrdd roedd y rheolwyr wedi rhoi hwb i lesiant a morâl gan gynnwys:

- pizza a the a sgysiau â'r staff;
- trêr unwaith yr wythnos;
- raffl unwaith yr wythnos;
- cinio dydd Sul i fynd;
- y rheolwr ardal yn dod â basgedi o ffrwythau i mewn;
- y staff yn enwebu staff eraill am wobwr;

- prydau am ddim i'r staff; ac
- grwpiau preifat ar WhatsApp a Facebook i gadw'r staff mewn cysylltiad a'u cefnogi.

Dywedodd y darparwyr wrthym am drefniadau cymorth i'r staff gan gynnwys sesiynau cwnsela ffurfiol, a lle nad oedd hyn ar gael yn fewnol, roedd rhai gwasanaethau wedi ceisio cyfeirio'r staff at adnoddau allanol. Defnyddiodd un darparwr ei dîm therapi ei hun i ddarparu cymorth ar gyfer llesiant y staff; defnyddiodd un arall wasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS) ac mae'r gwasanaeth ymlyniad wedi bod yn cefnogi'r staff.

Dywedodd un darparwr wrthym ei fod wedi cynnig wythnos i ffwrdd i staff yr oedd marwolaethau preswylwyr wedi effeithio arnynt er mwyn iddynt gael saib pan fyddai'r cyfyngiadau symud wedi cael eu llacio; mae darparwyr eraill wedi galluogi eu staff i weithio mewn gwasanaeth gwahanol am ychydig.

Roedd darparwyr wedi gweithio'n galed i gadw morâl staff yn uchel: dywedodd un wrthym fod y staff yn flinedig ond roeddent yn gwybod y gallent droi at eu rheolwr am fod polisi 'drws agored'; nododd un fod dau aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch, a hynny oherwydd gofid. Ymhlith gofidiau'r staff roedd mynd â'r feirws 'gartref' a heintio aelodau o'r teulu. Mewn un gwasanaeth, gwrthododd saith aelod o'r staff ddod i'r gwaith yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig.

Erbyn diwedd mis Mehefin roedd rhai darparwyr yn nodi bod staff a oedd wedi bod yn gweithio oriau ychwanegol wedi blino'n lân. Roedd y gofyniad i gadw pellter cymdeithasol a gwisgo PPE, yn enwedig masgiau wyneb, yn heriol ac yn effeithio ar forâl.

Rhyddhau cleifion o'r ysbyty

Yn ystod galwadau 'dal i fyny' cyntaf oll, cododd y darparwyr bryderon am y ffaith bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb gael eu profi am COVID-19. O ganlyniad, gwnaethom ofyn yn benodol am hyn dros sawl wythnos. Gwnaethom rannu'r canfyddiadau â phob bwrdd iechyd yng Nghymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau.

Soniodd llawer o'r darparwyr am y problemau roeddent wedi'u cael o ran rhannu gwybodaeth rhwng yr ysbyty a'r cartref gofal, er enghraifft, ddim yn cael gwybod am newidiadau i feddyginiaeth, ddim yn cael dogfennaeth a ddim yn cael gwybod am ryddhau cleifion. Nododd rhai o'r darparwyr fod y drefn o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn fryslog ac yn rhoi pwysau arnynt. Dywedodd rhai o'r darparwyr eu bod yn poeni am iechyd a llesiant y bobl a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty; i rai o'r bobl arweiniodd hyn at eu haildderbyn i'r ysbyty.

Disgrifiodd y darparwyr bwysau i dderbyn pobl o'r ysbyty heb gadarnhau'r sefyllfa o ran profion, er i'r canllawiau ar hyn newid wrth gynnal yr arolwg hwn. Nododd darparwr cartref gofal:

- ...*Mae'r galw a'r angen am welyau yn llywio'r broses o ryddhau cleifion o hyd. Ymddengys fod diogelwch y cartref a'r unigolion, ac ystyriaeth ohonynt, ar yr adeg hon, er gwaethaf y gweithdrefnau sydd ar waith, yn ystyriaeth eilaidd, nid yn brif ystyriaeth...*

Dywedodd un arall wrthym:

- *Mae'r ysbytai yn rhoi pwysau arnom ni i dderbyn pobl â COVID-19 fel achosion brys. Rydym yn gwrthod gwneud hyn ar hyn o bryd oherwydd rydym ni'n poeni am ddiogelwch preswylwyr presennol ond mae hyn yn bwysau parhaus. Byddwn yn derbyn pobl sydd wedi cael prawf neu sydd wedi gwella fodd bynnag.*

Nodwyd prosesau rhyddhau da gan rai darparwyr; roedd cydweithio da hefyd â thimau rhyddhau, a phrofion a chyngor ar nyrsio ataliol.

Erbyn mis Mehefin, roedd y broses brofi cyn rhyddhau cleifion wedi gwella, er bod heriau o hyd, gyda rhai darparwyr yn gorfod dadlau â staff ysbyty i bobl gael profion cyn eu rhyddhau. Erbyn canol mis Mehefin, roedd nifer y bobl a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal wedi lleihau'n sylweddol. Adlewyrchwyd hyn ym mhrofiad y darparwyr o ryddhau pobl o'r ysbyty ac erbyn ein galwadau yng nghanol mis Mehefin roedd mwy na 70% o'r darparwyr yn dweud bod eu profiad o hyn yn dda neu'n ardderchog. Tybiodd rheolwr un cartref gofal:

- ...*mae'n teimlo fel petai staff yr ysbyty yn parchu cartrefi gofal yn fwy nawr o ganlyniad i'r pandemig.*

Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r darparwyr drefniadau sefydlog o ran profi cleifion cyn eu rhyddhau o'r ysbyty. Nododd rhai darparwyr eu bod wedi cael sgysiau heriol â staff ysbyty ond roedd cynnal profion cyn rhyddhau cleifion wedi dod yn arfer safonol. Fodd bynnag, roeddem yn dal i glywed gan rai darparwyr nad oedd profion yn cael eu cynnal cyn rhyddhau cleifion. Nid oedd y polisi rhyddhau cleifion roedd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi cytuno arno bob amser yn cael ei ddilyn mewn rhai ardaloedd.

Nododd rhai darparwyr cymorth cartref heriau a oedd yn benodol i'w gwasanaeth nhw. Roedd un darparwr wedi gofyn am ail brawf cyn rhyddhau claf ond roedd y ward wedi gwrthod am fod yr unigolyn yn dychwelyd i'w gartref ei hun (llety byw â chymorth oedd hwn lle roedd 20 o breswylwyr eraill yn byw mewn fflatiau).

Erbyn mis Gorffennaf, nododd y darparwyr fod y sefyllfa yn llawer gwell gyda'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty wedi sefydlogi i raddau helaeth mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Roedd hyn wedi cyd-fynd â llai o achosion o'r feirws a llai o bwysau ar y system.

Cymorth gofal iechyd ehangach yn y gymuned

Nododd y darparwyr fod y cymorth gan feddygon teulu yn amrywio. Roedd un meddyg teulu yn darparu gwasanaeth cyswllt dyddiol dros y ffôn ac yn ymweld bob

mis i adolygu'r holl breswylwyr. Roedd meddygon teulu eraill yn llai rhagweithiol gyda phryderon yn cael eu codi, nad oedd meddygon teulu yn fodlon ymweld â phobl mewn cartrefi gofal; mewn rhai achosion roedd hyn wedi arwain at orfod mynd i'r ysbyty. Nododd un darparwr cartref gofal:

- *Byddai mor ddefnyddiol pe byddai meddygon teulu yn gallu bod yn fwy rhagweithiol wrth gyfathrebu er mwyn cydweithio. Hefyd am weithio gyda'r ysbytai, rydym ni am i hyn fod yn ddiogel...*

Erbyn canol mis Mehefin disgrifiodd y darparwyr sefyllfa well gyda chymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y gymuned. Roedd meddygon teulu bellach yn dod allan i weld pobl os oedd angen, gyda mesurau diogelwch a chadw pellter cymdeithasol ar waith. Nododd darparwr arall fod y gwasanaeth ambiwlans yn wych wrth ymateb i achos o dagu a dywedodd na allai fod wedi gofyn am well gwasanaeth.

Roedd nyrsys ardal wedi cynnal ymweliadau yn ystod y cyfnod hwn a chafodd hyn ei gydnabod yn gadarnhaol gan ddarparwyr. Mewn rhai rhannau o Gymru, nododd darparwyr iddynt fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r tîm diwedd oes a nyrsys Macmillan. Fodd bynnag, cododd llawer o'r darparwyr bryderon am y diffyg cymorth a oedd ar gael oddi wrth Nyrsys Seiciatrig Cymunedol, yn enwedig wrth ymateb i'r pandemig (er enghraifft cyfyngu ar symud o amgylch y cartref) wedi cael effaith negyddol ar lesiant meddwl pobl, yn enwedig pobl â dementia.

Dywedodd llawer o'r darparwyr fod prinder ambell feddyginiaeth yn ystod y pandemig gan rai fferyllwyr wedi arwain at weithwyr gofal yn gorfod chwilio am opsiynau amgen, neu ofyn i feddygon teulu ysgrifennu presgripsiwn arall am feddyginiaeth amgen pan nad oedd mwy ar gael. Bu'n rhaid i weithwyr gofal, yn enwedig staff gofal cartref, aros amser hir y tu allan i'r fferyllfa a oedd yn golygu bod ganddynt lai o amser i ddarparu gofal gwerthfawr. Nododd llawer o'r darparwyr broblemau pan wnaeth fferyllfeydd lleol roi'r gorau i ddosbarthu systemau dosau wedi'u monitro (rhywbeth roedd y darparwyr yn gyfarwydd ag ef ac yn cydnabod ei fod yn ddefnyddiol). Roedd hyn yn golygu bod pob math o feddyginiaeth yn cael ei ddosbarthu mewn cynwysyddion gwahanol ar gyfer pob unigolyn. Dywedodd y darparwyr wrthym fod hyn yn cymryd mwy o amser i'r staff ac yn peri'r risg o wneud camgymeriadau o ran meddyginiaeth.

Profion

Roedd gallu cael profion i'r bobl a oedd yn byw mewn cartrefi gofal a'r staff yn pryderu'r darparwyr o'r cychwyn cyntaf. Soniodd rhai darparwyr am yr oedi wrth gael canlyniadau profion a phroses hirfaith i gael canlyniadau. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r staff i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflym.

Unwaith y cyflwynwyd system brofi 'dorfol', disgrifiodd y darparwyr brofiadau cymysg o'r broses, ond roedd y rhan fwyaf ohonynt yn fodlon ac roedd y trefniadau ar gyfer y profion yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Nododd un darparwr cartref gofal:

- *Mae'r staff wedi cael profion bob dydd Mercher am y tair wythnos diwethaf ac rydym wedi hyfforddi'r dirprwy reolwr a'r arweinydd tîm i'w cynnal. Mae hyn*

wedi bod yn broses syml iddynt ac mae'r holl staff wedi dod i mewn ar eu diwrnodau i ffwrdd i gael profion. Rydym yn talu cyflog awr i'r staff am ddod i mewn ac mae'r prawf ond yn para pum munud.

Dywedodd rhai darparwyr fod ganddynt gydberthynas dda â'r awdurdod lleol. Roedd y profion yn cael eu trefnu'n gyflym ac roedd y canlyniadau yn cael eu dychwelyd yn brydlon.

Roedd anghysondeb fodd bynnag oherwydd roedd cael canlyniadau amserol yn bryder i lawer o'r darparwyr. Disgrifiodd nifer o'r darparwyr drefniadau heriol gyda chanlyniadau profion yn mynd ar goll neu ddim yn dod i law; bach iawn o rybudd oedd i drefnu prawf ac roedd y broses honno yn gymhleth. Teimlai rheolwyr cartrefi gofal mawr fod y broses yn feichus.

Roedd nifer o'r ymatebwyr am gael gwybodaeth ychwanegol a chanllawiau ar drefniadau profion i'r staff mewn gwasanaethau cymorth cartref a gwasanaethau byw â chymorth. Hefyd holodd y darparwyr am fylchau yn y canllawiau.

Ffynonellau eraill o gymorth sydd ar gael i ddarparwyr

Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr yn gadarnhaol am y cymorth a ddarparwyd gan gomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd, gydag un yn nodi ei fod yn 'wych'. Canmolwyd cysylltiadau lleol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd.

Yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig cwynodd darparwyr am orfod rhoi'r un wybodaeth sawl gwaith, gydag un darparwr yn dweud ei fod yn 'ormod' ac un arall yn dweud ei fod yn 'feichus'.

Effaith ariannol

Erbyn dechrau mis Mai roedd rhai darparwyr yn codi pryderon am effaith ariannol y pandemig ac felly gwnaethom ddechrau edrych ar hyn gyda nhw. Gan fod llawer o'n sgysiau wedi'u cynnal â rheolwyr, nid cyfarwyddwyr, nid oedd rhai yn ymwybodol o faterion ariannol, ond yn achos darparwyr bach lle mai'r perchenogion oedd yr unigolion cyfrifol/rheolwyr roedd y pryderon yn fwy amlwg. Roedd y pryderon am gyllid ynghlwm wrth gostau cynyddol PPE a chyflenwi staff a oedd yn hunanynysu/gwarchod.

Hefyd ym mis Mai tynnodd rhai darparwyr, yn arbennig darparwyr cymorth cartref, sylw at y ffaith bod yr effaith ariannol yn dod yn fwy o bryder. Roedd darparwyr cymorth cartref yn poeni y gallai ffocws ar gymorth mewn argyfwng effeithio ar eu cynaliadwyedd. Dywedwyd nad oedd cymorth cartref nad oedd yn hanfodol ar gael er mwyn gwneud lle i becynnau gofal mewn argyfwng, ond prin y bu'r rhain felly roedd ganddynt gapasiti a llai o lwyth gwaith.

Roedd swyddi gwag mewn rhai cartrefi gofal ac roedd rhai darparwyr wedi rhoi'r gorau i dderbyn mwy o breswylwyr oherwydd achosion o COVID-19 yno a'u bod yn aros am ddiwedd y cyfnod 28 diwrnod heb symptomau. Bu'r system ffyrlo a

benthyciadau yn ddefnyddiol yn y byrdymor ond roedd cynaliadwyedd y gwasanaeth yn cael ei gwestiynu gan rai darparwyr.

Adfer

Holwyd darparwyr am eu cynlluniau adfer oherwydd roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysig i'r rheolwyr ystyried hyn yn gynnar. Mor gynnar â mis Mai nododd rhai darparwyr eu bod wrthi'n blaengynllunio, gyda'r rheolwyr yn paratoi strategaeth ar gyfer diwedd y cyfyngiadau symud.

Wrth i wasanaethau gael eu hadfer, dywedodd y darparwyr eu bod wedi bod yn canolbwyntio ar ganllawiau'r llywodraeth o ran ailgysylltu teuluoedd, ailddechrau cynnal gweithgareddau, adnewyddu a gwaith gwasanaeth arferol a ohiriwyd oherwydd y pandemig.

Gofynnodd llawer o'r darparwyr am ganllawiau pellach ar y cam adfer a llacio'r cyfyngiadau symud; roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chyswllt â'r teulu ac eglurder ynghylch 'swigod', ailgyflwyno pobl i'r gymuned ac ymweliadau proffesiynol.

Dysgu

Yn ystod wythnosau olaf ein galwadau 'dal i fyny' ym mis Gorffennaf, roedd lledaeniad y pandemig wedi sefydlogi yn y rhan fwyaf o Gymru ac roedd y darparwyr yn gallu myfyrio ar yr hyn roeddent wedi'i ddysgu o reoli'r heriau roeddent wedi'u hwynebu. Nododd un darparwr cymorth cartref:

- Rwy'n ofni y bydd mwy o achosion yn y gaeaf. Rwyf wedi dysgu bod cyfathrebu da, arferion rheoli heintiau da a staff ymrwymedig yn allweddol i reoli sefyllfaoedd fel yr un rydym yn ei hwynebu nawr.*

Nododd un darparwr cartref gofal:

- Digon o gyflenwadau PPE; asesiadau risg staff; gweithdrefnau profi; cyfyngu ar ymwelwyr yn gynnar.*

Un thema allweddol oedd pwysigrwydd cyfathrebu da. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r rhyngwyneb â sefydliadau fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ein hunain (AGC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar adegau roedd yr holl ganllawiau, a pha mor gyflym roeddent yn newid, yn tanseilio eu heffeithiolrwydd a gallai negeseuon pwysig gael eu methu'n hawdd. Ar adegau cafwyd yr un wybodaeth gan sawl ffynhonnell ond, ar adegau eraill, nid oedd gwybodaeth leol yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Wrth edrych ymlaen, awgrymodd y darparwyr y byddai o fudd cydlynu'r gwaith o rannu gwybodaeth er mwyn osgoi dyblygu. Nododd un darparwr cartref gofal:

- Nid wyf am i chi feddwl fy mod i'n beirniadu ond, ar y dechrau, roedd llawer o wybodaeth yn cael ei darparu am bandemig COVID-19 gan bob rhan o'r tîm, BIAB, AGC, gweithwyr cymdeithasol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roedd llawer o'r wybodaeth hon yr un peth ac roedd gormod o negeseuon e-bost, felly nid oeddem yn gwybod ar y pryd pa gyngor i'w ddilyn.*

Dywedodd y darparwyr eu bod wedi datblygu gwaith tîm wrth iddynt ganolbwyntio ar weithdrefnau rheoli heintiau a gweithio drwyddynt. Roeddent hefyd yn cydnabod bod y cyfyngiadau symud wedi gwella'r broses o gyfathrebu â theuluoedd ac roeddent am i hyn barhau.

Nododd y rhan fwyaf o'r darparwyr fod technoleg ddigidol yn bwysig o ran cyfathrebu. Mewn mwy na 75% o'r ymatebion, nododd y rheolwyr fod y cyfarpar a'r dyfeisiau a brynwyd neu a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol.

Roedd gwasanaethau wedi defnyddio technoleg mewn sawl ffordd: i hwyluso cyswllt rhwng pobl a'u teuluoedd; darparu gweithgareddau ychwanegol i bobl; neu cysylltu â gweithwyr proffesiynol a darparu hyfforddiant staff. Ymhlith adborth darparwyr cartrefi gofal roedd:

- *Mae mynediad o bell i bethau fel hyfforddiant (cwmwl dysgu) wedi galluogi'r gwasanaeth i sicrhau bod hyfforddiant a chymorth staff yn gyfredol.*
- *Rydym wedi prynu ein llechi [digidol] ein hunain ar gyfer ymgynghoriadau meddygon teulu ac mae'r defnydd o dechnoleg yn datblygu.*

I rai darparwyr roedd cysylltedd â'r rhyngrwyd ac anawsterau technegol o ran cyfarpar yn her benodol. Nid oedd pob gweithiwr proffesiynol 'ar-lein' a oedd yn llesteirio'r broses gyfathrebu.

Pwysleisiodd y darparwyr bwysigrwydd cyfathrebu o fewn eu gwasanaeth, ac roedd y rheolwyr yn chwarae rhan ganolog yn hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth. Roedd llwyfannau digidol megis Microsoft Teams yn sicrhau bod modd cyfathrebu'n ddidrafferth ac nad oedd angen teithio, gan olygu bod mwy o amser ar gael i ganolbwyntio ar ofal a chymorth.

Pennod tri

Effaith ar gartrefi gofal a gwasanaethau maethu plant

Rhwng 8 Mehefin 2020 a 2 Awst 2020 gwnaethom addasu ein cwestiynau 'dal i fyny' yn benodol ar gyfer gwasanaethau plant (264 o sgysiau).

Rhwng 30 Mawrth 2020 a 5 Mehefin 2020, roedd gan 16 o gartrefi gofal i blant achosion o COVID-19 a gadarnhawyd (16 aelod o staff ac un person ifanc).

Y neges gadarnhaol a chyson gan ddarparwyr cartrefi gofal plant oedd bod plant a phobl ifanc, ar y cyfan, yn ymdopi'n dda iawn. Nodwyd ambell achos lle roedd plant wedi rhedeg i ffwrdd a oedd yn anodd ei reoli. Nododd y darparwyr fod y cydberthnasau rhwng y plant a'r staff wedi cryfhau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y plant yn ymddiddori mewn gwaith ysgol. Nodwyd bod morâl yn dda ac roedd y plant yn ymdopi â chyfyngiadau'r sefyllfa yn rhyfeddol o dda.

Ar gyfer gwasanaethau maethu, gwnaeth y cyfyngiadau symud greu peth pryder i wasanaethau ar y dechrau o ran sut y byddai'r plant yn ymdopi â pheidio â mynychu'r ysgol a methu â gweld teulu a ffrindiau, ac effaith bosibl hyn ar eu lleoliad maethu. Nododd gwasanaethau maethu fod y plant wedi ymaddasu'n dda i'r newidiadau hyn a siaradwyd am ymgysylltu effeithiol a chydberthnasau cadarnhaol rhwng y plant a'u gofalwyr maeth, a wnaeth greu lleoliadau mwy sefydlog.

Llesiant plant

Nododd y darparwyr fod cydweithio fel tîm, darparu gofal cyson a chynnal arferion pob dydd wedi bod yn hollbwysig, gyda'r plant yn cael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio ac yn dangos mwy o greadigrwydd gyda gweithgareddau yn y cartref.

Nododd nifer mawr o'r rheolwyr fod eu staff wedi gweithio'n galed iawn i gadw ysbryd y plant yn uchel ac i'w cadw'n teimlo'n gadarnhaol ac roedd hyn wedi arwain at gynyddu morâl y staff, gyda'r staff a'r plant yn meithrin cydberthnasau gwell. Soniodd nifer am bwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gywir i'r plant, bod yn agored ac yn onest, cadw pethau'n hwyliog a ddim yn rhy ddifrifol, a pharatoi'r plant ar gyfer y cyfyngiadau symud cyn eu cyflwyno, a gafodd effaith gadarnhaol ar y cyfan.

- *Mae'r staff wedi gwneud gwaith gwych drwy eu creadigrwydd a'u cysylltiadau ac wedi cynnig profiadau cadarnhaol.*

Siaradodd y darparwyr am bwysigrwydd cynnal tîm craidd o staff er mwyn rhoi cysondeb i'r plant, ac roedd hyn wedi helpu i feithrin cydberthynas rhwng y plant a'r staff. Nododd nifer mawr eu bod wedi llwyddo i gynnal lefelau staffio heb orfod defnyddio staff asiantaeth.

- *Mae'r staff wedi bod yn wych ac wedi cadw'r plant yn ddiogel.*

Arweiniodd hyn at rai darparwyr yn nodi bod llai o amharu ar leoliadau'r plant na'r llynedd.

- *Mae popeth yn mynd yn dda ar y cyfan. Mae wedi bod yn bosibl meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac mae wedi bod yn dda lleddfu pwysau'r ysgol ar lawer o'r plant. Dim unrhyw achos o amharu ar leoliadau.*

Mynediad i addysg

Nododd pob darparwr fod amserlen llai o faint o ran nifer yr oriau/diwrnodau roedd y plant yn cael addysg. Roedd y plant yn cael eu haddysg yn bennaf drwy diwtorialau ar-lein, llyfrau gwaith, Google Classroom a sesiynau Zoom. Roedd rhai o'r plant yn cael cymorth gan yr hybiau lleol, gan dreulio 3-4 awr y dydd, 2-3 gwaith yr wythnos ar gyfartaledd ar weithgareddau addysgol.

Nododd y cartrefi a oedd yn darparu addysg yn y cartref fod hyn wedi mynd yn dda ar y cyfan. Nododd staff fod rhai o'r plant nad oeddent wedi ymddiddori yn eu haddysg gynt wedi ymateb yn dda i ddysgu gartref; roedd y staff o'r farn mai natur anffurfiol y dysgu oedd y rheswm dros hyn.

- *Mae'r ysgolion yn anfon gwaith ac, wedi'u cefnogi gan eu gofawyr, mae'r plant sydd fel arfer yn cael problemau yn yr ysgol yn ymdopi'n dda ac yn mwynhau'r sylw un i un.*

Roedd rhai darparwyr wedi prynu gliniaduron ac iPads, ac yn sicrhau bod gan y plant fan tawel yn y cartref i astudio. Roedd eraill wedi cynnwys addysg gorfforol yn arferion dyddiol y cartref drwy brynu cyfarpar a defnyddio'r ardal awyr agored ar gyfer gemau tîm ac astudiaethau natur.

- *Rydym wedi prynu tŷ gwydr ac yn tyfu llysiau - mae llawer o annibyniaeth i'w weld, siopa a phobi.*

Nododd y staff a oedd yn gwneud gwaith sgiliau bywyd gyda'r plant fod mwy o ymgysylltu; priodolwyd hyn i effaith y cyfyngiadau uwch ar symudiadau'r plant y tu allan i'r cartref, gan olygu bod y staff a'r plant yn treulio amser gyda'i gilydd a oedd wedi eu galluogi i feithrin cydberthnasau cadarnhaol.

- *Peth effaith gadarnhaol ar gydberthnasau a datblygiad mewn sawl maes. Amser gwerth chweil.*
- *Llai o amharu ar leoliadau na'r amser hyn y llynedd.*

Nododd y gwasanaethau a oedd yn darparu cyfleuster addysgol ar y safle fod y plant yn parhau i fynychu. Roedd y staff gofal ac addysgu yn cydweithio i gefnogi addysg y plant. Roedd tiwtoriaid ar gael i gefnogi'r plant ac roedd rhai wedi cynnwys addysg gorfforol yn yr amserlen wythnosol.

Disgrifiodd rhai darparwyr y trefniadau ymarferol ar gyfer y plant a oedd wedi cwblhau eu TGAU eleni; cadarnhawyd ceisiadau ar-lein i golegau a bwriadwyd cynnal sesiynau rhagarweiniol rhithwir. I'r plant hynny a oedd yn dilyn hyfforddiant galwedigaethol, bwriadwyd cynnal sesiynau sefydlu gyda darparwyr hyfforddiant.

Dywedodd gwasanaethau maethu wrthym fod gan awdurdodau lleol gwahanol drefniadau gwahanol ar waith i blant gael addysg. Nododd rhai fod y plant yn mynychu'r ysgol am resymau cymdeithasol yn hytrach na rhai addysgol. Dywedodd y rhan fwyaf, lle bu modd i'r plant fynychu'r ysgol, eu bod wedi gwneud hynny am ddiwrnodau byr tan ddiwedd y tymor.

Mynediad i eiriolaeth

Parhaodd gwasanaethau eirioli i gefnogi plant yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd plant fynediad drwy wasanaethau eirioli annibynnol ac Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal yr Awdurdod Lleol. Soniodd y darparwyr am bwysigrwydd technoleg ddigidol wrth sicrhau cyswllt rheolaidd rhwng y plant a'r eiriolwr. Defnyddiwyd Zoom, Skype, FaceTime a Microsoft Teams i hwyluso'r trafodaethau, yn ogystal â galwadau ffôn. Roedd rhai eiriolwyr yn cysylltu â chartrefi bob mis i weld a oedd angen cymorth ar unrhyw blant. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio roedd rhai eiriolwyr wedi ymweld â phlant yn y cartref.

- *Siaradwyd â'r eiriolwr drwy Skype a fu'n effeithiol iawn.*
- *Mae eiriolwr Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) yn cysylltu â'r cartref bob mis ac mae'r plant yn cael ffurflenni adborth.*
- *Mae gan y bobl ifanc eiriolwyr, mae'r staff mewn cysylltiad â nhw drwy e-bost ac maent yn mynychu adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Maent wedi bod yn dda iawn ac maent yn cefnogi un person ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau i oedolion.*

Er i'r darparwyr gydnabod pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad ag eiriolwyr, roedd llawer o blant wedi dewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd rhai darparwyr fod y plant yn cymryd rhan yn eu sesiynau gweithwyr allweddol a oedd yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau unigol a all fod ganddynt. Roedd darparwyr yn sicrhau bod eu plant yn cael eu hatgoffa o'u hawl i eiriolwr mewn cyfarfodydd tŷ ac roedd gwybodaeth am eiriolaeth ar gael.

- *Gallu cael y gwasanaeth ond nid oes unrhyw bobl ifanc am gael eiriolwr ar hyn o bryd ond maen nhw wedi cael cynnig hynny.*
- *Gall y Dirprwy Reolwr ffonio Tros Gynnal am gymorth os oes angen.*
- *Gall y bobl ifanc gael gwasanaethau eirioli ac maen nhw'n gwybod sut i ofyn am hynny, ond nid oedd neb yn defnyddio'r gwasanaeth cyn y cyfyngiadau symud ac nid oes neb wedi gofyn amdano yn ystod y cyfnod hwn.*

Roedd darparwyr gofal maeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad ag eiriolwyr, ond unwaith eto roedd llawer o blant wedi dewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Roedd gofalcwyr maeth yn sicrhau bod eu plant yn cael eu hatgoffa o'u hawl i eiriolwr. Dros y ffôn y cafwyd cysylltiad yn bennaf.

Cymorth gan weithwyr cymdeithasol

Dywedodd y darparwyr wrthym fod gweithwyr cymdeithasol yn parhau i fonitro lleoliadau plant mewn gwahanol ffyrdd. Roeddent yn gallu siarad â phobl ifanc dros y ffôn, naill ai drwy ffôn symudol personol neu ffôn y cartref ac roedd yn well gen rai pobl ifanc yr opsiwn hwn yn hytrach na Skype, Zoom, WhatsApp neu Microsoft Teams. Roedd pobl ifanc eraill wir yn mwynhau galwadau drwy'r cyfrwng hwn. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol wedi ymweld â phlant a phobl ifanc mewn gerddi, gan gadw pellter cymdeithasol a gwisgo PPE.

Roedd cyfarfodydd adolygu wedi parhau ond roeddent yn cael eu cynnal yn rhithwir. Clywsom am un person ifanc a oedd wedi gwrthod cymryd rhan ond roedd y rhan fwyaf yn hapus i wneud. Roedd y darparwyr yn parhau i lunio adroddiadau wythnosol neu fisol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a hefyd yn gwneud galwadau rheolaidd.

- *Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig oherwydd y risgiau uwch. Dywedodd y rheolwr ei bod hi'n ymroddedig iawn i'r person ifanc, gan ymweld yn rheolaidd.*
- *Mae'r gweithiwr cymdeithasol mewn cysylltiad rheolaidd, ymweliadau, cyfarfodydd strategaeth, dywedwyd ei bod yn 'wych' gan y rheolwr ac yn ymroddedig iawn i'r person ifanc.*
- *Mewn cysylltiad dyddiol â'r gweithwyr cymdeithasol ar hyn o bryd.*
- *Ymateb amrywiol gan weithwyr cymdeithasol, rhai mewn cysylltiad rheolaidd, eraill yn llai aml.*

Dywedodd un gwasanaeth maethu wrthym:

- *Cynhelir ymweliadau monitro â phlant nad ydyn nhw'n siarad drwy arsylwi arnynt yng ngardd cartref y gofalwr.*

Nododd darparwyr maeth fod plant a phobl ifanc, mewn rhai sefyllfaoedd, mewn cysylltiad mwy rheolaidd â'u gweithwyr cymdeithasol a bod plant yn aml yn ymateb yn dda i gyfathrebu fel hyn.

Mynediad i gymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS)

Rhoddodd y darparwyr ddarlun cymysg. Nid oedd angen unrhyw gymorth ar lawer o'r bobl ifanc; roedd rhai yn derbyn gwasanaeth; roedd rhai wedi'u hatgyfeirio ac yn aros am apwyntiadau; ac roedd gan nifer o wasanaethau fynediad i'w therapyddion eu hunain. Roedd yn gadarnhaol clywed bod y bobl ifanc a oedd eisoes yn derbyn gwasanaeth yn parhau i fod mewn cysylltiad dros y ffôn.

- *Mae CAMHS wedi bod yn wych, gan ffonio bob wythnos.*

- *Mae CAMHS wedi cefnogi un plentyn dros y ffôn ac mae gan un arall apwyntiad yn y clinig ym mis Awst 2020.*
- *Galwadau ffôn wythnosol gan y gweithiwr cymorth cyffuriau.*
- *Mae CAMHS yn rhagnodi meddyginiaeth ar gyfer un person ifanc.*

Ymddengys mai'r effaith fwyaf oedd lle y gwnaed atgyfeiriadau a'u derbyn ond nid oedd y person ifanc wedi meithrin cydberthnasau â gweithwyr ac am fod y gwasanaeth wedi'i ohirio nid ystyriwyd bod siarad dros y ffôn yn addas.

Roedd rhai o'r gwasanaethau maethu wedi ceisio cymorth gan wasanaethau therapiwtig eraill.

- *Mae rhai o'r plant yn defnyddio gwasanaeth yr awdurdod lleol e.e. MIST (Caerffili). Mae'r cymorth wedi parhau drwy Skype.*

Mynediad i gymorth a chynghor i ddarparwyr

Dywedodd y rhan fwyaf o'r darparwyr eu bod yn cael cymorth da gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys eu cwmni, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd yr Amgylchedd, awdurdodau lleol, Consortiwm Comisiynu 4C, a ninnau (AGC). Hefyd, siaradodd y darparwyr yn gadarnhaol am y cymorth roeddent yn ei gael gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a oedd yn holi i weld a oedd ganddynt ddigon o PPE.

Nododd rhai darparwyr eu bod yn ansicr am ba asiantaeth i droi ati am wybodaeth, oherwydd weithiau nid oedd yn glir pwy allai roi cynghor ar ba fater a theimlwyd y gellid cyfleu hyn yn well.

Disgrifiodd nifer o'r darparwyr well cydberthnasau rhwng comisiynwyr a gweithwyr cymdeithasol a nodwyd pa mor werthfawr y bu'r cymorth hwn i'r plant a'r staff.

Roedd argaeledd y profion i'r staff a'r plant wedi gweithio'n dda ar y cyfan a siaradodd y darparwyr yn gadarnhaol am hyn a'r ffaith ei fod wedi rhoi tawelwch meddwl iddynt, er i rai nodi diffygion o ran y broses.

Dywedodd y gwasanaeth maethu wrthym fod gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn goruchwyllo ac yn ymgynghori'n rhithwir ar y cyfan ond eu bod wedi ymweld â gofalwyr maeth ac wedi goruchwyllo. Mae gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol o'r gwasanaeth hefyd mewn cysylltiad rhithwir â phlant a phobl ifanc.

Dysgu

Roedd fideogynadledda yn cael ei ystyried yn ffordd newydd o weithio ac roedd wedi gweithio'n dda wrth gadw plant mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, ac i rai o'r plant roedd llai o ddylanwadau allanol wedi creu sefydlogrwydd a gwell canlyniadau. Roedd fideogynadledda hefyd wedi gweithio'n dda ar gyfer hyfforddiant staff.

Nododd yr holl wasanaethau maethu fod y defnydd o dechnoleg wedi arwain at newidiadau mawr i'w ffordd o weithio a'r effaith gadarnhaol roedd hyn yn ei chael ar bob agwedd ar eu busnes, a dywedwyd y byddai'r ffordd newydd hon o weithio yn rhywbeth y byddent yn parhau i'w defnyddio yn y dyfodol. Addasu i'r defnydd o dechnoleg a'r defnydd o gyfarfodydd rhithwir oedd y norm bellach wrth gynnig cymorth i ofalwyr maeth a chadw mewn cysylltiad â'r plant. Roedd nifer o wasanaethau wedi datblygu grwpiau cymorth rhithwir i blant a gofalwyr ac fe'i hystyriwyd o fudd mawr yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru. Siaradodd rhai asiantaethau am y cydberthnasau gwell rhwng y gogledd a'r de a bod technoleg wedi cefnogi hyn, heb orfod teithio, a nodwyd y byddai hyn yn ffordd newydd o weithio yn y dyfodol.

Darperir grwpiau cymorth i ofalwyr maeth a phlant gan asiantaethau fel rhan o'u rhwydwaith cymorth ac mae nifer wedi nodi gwell presenoldeb am eu bod yn rhithwir. Nodwyd bod datblygu hybiau/sgrymiau i ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn gweithio'n dda, gan ddarparu cymorth rheoli achos a chyfleoedd i rannu heriau a materion o ran ymarfer.

Nodwyd bod Grŵp 'Chill Out' wedi'i arwain gan blant yn gweithio'n dda ac nid oedd angen poeni am deithio na mynd ati i wneud trefniadau eraill drwy ei gynnal yn rhithwir, a bu modd ei gynnal bob wythnos yn hytrach na bob mis.

Siaradodd y gwasanaethau sy'n darparu gofal seibiant byr am y defnydd o dechnoleg a chyfarfodydd rhithwir i gadw mewn cysylltiad â phlant a'u teuluoedd tra bo'r gwasanaeth wedi'i ohirio. Roedd hyn wedi helpu i gynnal cysylltiadau ac wedi lleihau gofidiau'r plant unwaith yr ailddechreuodd y gwasanaeth.

Pennod pedwar


Dadansoddiad meintiol

1. Hysbysiadau COVID-19 AGC i bobl a staff sy'n defnyddio gwasanaethau gofal i oedolion


Dechreuodd pandemig COVID-19 yng Nghymru ddechrau mis Mawrth 2020 gan barhau i ddatblygu ymhell i mewn i fis Gorffennaf. Drwy arsylwi ar nifer yr hysbysiadau a gafwyd ar gyfer pobl (preswylwyr) ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd mewn cartrefi gofal (Ffigur 1), gellir gweld cynnydd sylweddol mewn achosion yn ystod mis Ebrill a thrwy gydol mis Mai, gyda'r nifer uchaf sef 53 o achosion yn cael ei gofnodi ar 11 Mai. Mae'r cyfartaledd symudol saith diwrnod yn dangos i'r rhan fwyaf o achosion ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal ddechrau lleihau o ganol mis Mehefin i fis Gorffennaf.

Drwy arsylwi ar nifer yr hysbysiadau a gafwyd ar gyfer staff ag achosion o COVID-19 a gadarnhawyd a oedd yn gweithio mewn cartrefi gofal i oedolion (Ffigur 2), mae cyfnod brig achosion yn dilyn tuedd debyg o ran amser i bobl ag achosion a gadarnhawyd mewn cartrefi gofal i oedolion. Roedd mwy o staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal i oedolion yn nodi achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod mis Mai, gyda'r nifer mwyaf sef 91 o achosion yn cael ei gofnodi ar 5 Mai. Mae'r cyfartaledd symudol saith diwrnod hefyd yn dangos i achosion ar gyfer staff cartrefi gofal ddechrau lleihau o ganol mis Mehefin i fis Gorffennaf.

Ffigur 1. Nifer y bobl ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd mewn cartrefi gofal i oedolion




Ffigur 2. Nifer y staff ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd mewn cartrefi gofal i oedolion




Drwy arsylwi ar nifer yr hysbysiadau a gafwyd ar gyfer pobl ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd mewn gwasanaethau cymorth cartref (Ffigur 3), gellir gweld llai o achosion nag ar gyfer cartrefi gofal. Mae'r cyfartaledd symudol saith diwrnod yn dangos cyfnod brig llawer mwy gwastad yn nifer yr achosion a gofnodwyd rhwng diwedd mis Mawrth a chan barhau i fis Mehefin. Nodwyd y nifer mwyaf sef 11 o achosion ar 6 Ebrill.

Drwy arsylwi ar nifer yr hysbysiadau a gafwyd ar gyfer staff ag achosion o COVID-19 a gadarnhawyd mewn gwasanaethau cymorth cartref (Ffigur 4), gellir gweld cynnydd sylweddol o 17 o achosion ar 23 Mawrth. Mae'r cyfartaledd symudol saith diwrnod hefyd yn dangos cyfnod brig mwy gwastad o achosion ar gyfer staff gwasanaethau cymorth cartref a wnaeth wedyn leihau ddechrau mis Gorffennaf.

Ffigur 3. Nifer y bobl ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd mewn gwasanaethau cymorth cartref



Ffigur 4. Nifer y staff ag achos o COVID-19 a gadarnhawyd mewn gwasanaethau cymorth cartref




2. Crynodeb o alwadau 'dal i fyny' yr arolwg i oedolion

Gwnaed cyfanswm o 10,045 o alwadau 'dal i fyny' i ddarparwyr gofal oedolion yn ystod cyfnod yr arolwg rhwng 30 Mawrth 2020 a 26 Gorffennaf 2020 (Ffigur 5). Roedd 71% o'r galwadau (7,174) i gartrefi gofal ac roedd 29% (2,871) i wasanaethau cymorth cartref (Ffigur 6). Gwnaed y rhan fwyaf o'r galwadau yn ystod yr wythnos a gwnaeth y mis prysuraf, sef mis Ebrill, arwain at fwy o alwadau mewn ymateb i amrywiaeth o themâu yn canolbwyntio ar gyflenwi PPE ac adnoddau eraill megis mynediad i fwyd, meddyginiaeth a chymorth awdurdod lleol/bwrdd iechyd lleol (Ffigur 7).


Ffigur 5. Dadansoddiad o'r galwadau yn ôl cyfnod yr arolwg

<u>Cyfnod (2020)</u>	<u>Cartrefi Gofal</u>	<u>Gwasanaethau Cymorth Cartref</u>	<u>Nifer y galwadau</u>
Wythnosau 1-2 (30 Mawrth- 12 Ebrill)	1,133	462	1,595
Wythnosau 3-4 (13 Ebrill-26 Ebrill)	1,184	503	1,687
Wythnosau 5-8 (27 Ebrill-24 Mai)	1,859	713	2,572
Wythnosau 9-13 (25 Mai-28 Mehefin)	1,926	717	2,643
Wythnosau 14-17 (29 Mehefin-26 Gorffennaf)	1,072	476	1,548
Cyfanswm y Galwadau	7,174	2,871	10,045

Ffigur 6. Nifer y galwadau 'dal i fyny' a wnaed i ddarparwyr gofal oedolion yn ôl y math o wasanaeth



Ffigur 7. Cyfnod y galwadau 'dal i fyny' i ddarparwyr gofal oedolion




3. Profion COVID-19 ar gyfer staff a phreswylwyr

Yn ystod y galwadau 'dal i fyny' cynnar, daeth yn amlwg nad oedd y rhan fwyaf o bobl na staff yn cael profion COVID-19 rheolaidd. Nododd 53% o'r galwadau 'dal i fyny' i gartrefi gofal a 58% i wasanaethau cymorth cartref nad oeddent wedi cael profion (mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfansymiau cyfunol pobl a staff). Mewn arolygon diweddarach ailddiffiniwyd y cwestiwn er mwyn cael darlun cliriach o effaith profion torfol ar bobl a staff gwasanaethau gofal oedolion.

3.1. A yw pobl wedi cael profion COVID-19 cyn symud i mewn i'r gwasanaeth os ydynt yn dod o gartref? (wythnosau 14-17 yr arolwg)

Ar gyfer pobl a oedd yn symud i mewn i gartrefi gofal o'u cartref eu hunain, profodd dros 90% o'r cartrefi gofal yr holl bobl am COVID-19 a dim ond 5% na wnaethant gynnal unrhyw brofion. O gymharu, nododd gwasanaethau cymorth cartref lai o brofion o lawer lle roedd pobl yn symud o gartref i mewn i wasanaethau byw â chymorth, gyda 21% yn nodi nad oedd neb wedi'u profi (Ffigur 8).


Ffigur 8. Pobl a gafodd brofion COVID-19 cyn symud i mewn i'r gwasanaeth (os oeddent yn dod o'u cartref eu hunain)



3.2. *A yw pobl wedi cael profion COVID-19 cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty? (wythnosau 14-17 yr arolwg)*

Lle'r oedd pobl yn aros yn yr ysbyty, gwnaeth dros 90% o'r cartrefi gofal sicrhau bod yr holl bobl wedi cael prawf cyn eu rhyddhau. Mae'r ganran ychydig yn is ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty i wasanaethau cymorth cartref, lle nododd ychydig dros 80% fod yr holl bobl wedi'u profi am COVID-19. Nododd nifer bach o wasanaethau gofal oedolion nad oedd unrhyw un o'u preswylwyr wedi cael prawf cyn eu rhyddhau o'r ysbyty, a oedd yn cynrychioli 3% o gartrefi gofal (16 i gyd) a 3% o wasanaethau cymorth cartref (chwech i gyd) (Ffigur 9).


Ffigur 9. Pobl a gafodd brofion COVID-19 cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty



3.3. Yn eich barn chi, sut fydddech chi'n disgrifio eich profiad o brofion hyd yn hyn? (wythnosau 14-17 yr arolwg)

Nododd y rhan fwyaf o'r cartrefi gofal a'r gwasanaethau cymorth cartref fod eu profiad o brofion yn 'dda' yn ystod y pandemig. Cafodd rhai gwasanaethau drafferthion gyda'r broses brofi a nododd traean o'r cartrefi gofal a'r gwasanaethau cymorth cartref fod angen gwella'r broses neu ei bod yn wael (Ffigur 10).


Ffigur 10. Profiad o brofion hyd yma



3.4. A yw staff wedi cael profion COVID-19? (wythnosau 14-17 yr arolwg)

O gymharu â chanlyniadau cynnar yr arolwg, mae cyfran uwch o staff bellach yn cael profion. Rodd bron i 90% o'r cartrefi gofal wedi profi pob aelod o'r staff a dim ond 3% o'r gwasanaethau nad oeddent wedi profi eu staff. Roedd 13% o'r gwasanaethau gofal cartref wedi profi pob aelod o'r staff ac yn y mwyafrif (63% o'r gwasanaethau) roedd rhai o'r staff wedi'u profi (Ffigur 11).

Ffigur 11. Staff a brofwyd am COVID-19




4. Effaith COVID-19 ar lefelau staffio'r busnes

4.1. Pa effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar lefelau staffio eich busnes/


Yn ystod y pandemig gwnaeth y rhan fwyaf o'r cartrefi gofal a'r gwasanaethau cymorth cartref barhau'n wydn iawn o ystyried effaith bosibl COVID-19 ar lefelau staffio eu busnes. Nid ymddengys fod y pandemig wedi cael effaith ofnadwy ar lefelau staffio. Yn ystod cyfres o arolygon, nododd rhwng 86% a 92% o'r cartrefi gofal mai effaith fach, os o gwbl, y byddai COVID-19 yn ei chael ar eu lefelau staffio. Dim ond tri chartref gofal a nododd effaith ofnadwy ar ddechrau'r pandemig, gydag 1% a 2% yn nodi effaith fawr bosibl ar barhad y busnes (Ffigur 12).

Ffigur 12. Effaith COVID-19 ar lefelau staffio mewn cartrefi gofal



Fel cartrefi gofal, nododd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth cartref (85-96%) mai effaith fach, os o gwbl, a gafodd COVID-19 ar eu lefelau staffio. Dim ond un gwasanaeth cymorth cartref a nododd, mewn arolwg cynnar, y byddai effaith ofnadwy ar lefelau staffio ei fusnes. Nododd 14% o'r gwasanaethau cymorth cartref effaith gymedrol ar eu busnes, ond lleihaodd hyn dros gyfnod yr arolwg i lawr i 6% (Ffigur 13).


Ffigur 13. Effaith COVID-19 ar lefelau staffio mewn gwasanaethau cymorth cartref



4.2. Os yw'r effaith ar lefelau staffio yn sylweddol neu'n ofnadwy, a oes gan y gwasanaeth unrhyw gynlluniau wrth gefn?

I'r nifer bach o wasanaethau lle mae'r effaith ar lefelau staffio yn sylweddol neu'n ofnadwy, nododd 86% fod ganddynt gynllun wrth gefn a nododd 14% nad oedd ganddynt gynllun wrth gefn neu nad oeddent yn ymwybodol o un (Ffigur 14).

Ffigur 14. Cartrefi gofal â chynllun wrth gefn




4.3. A oes rhaid i chi ddefnyddio staff asiantaeth? Os oes, ydych chi'n gallu defnyddio'r un staff neu a yw'r asiantaeth yn anfon staff gwahanol?


Mewn arolygon a gynhaliwyd yn ystod mis Mai 2020 a mis Mehefin 2020, gofynnwyd i ddarparwyr gofal nodi eu defnydd o staff asiantaeth. Nododd bron 20% o'r cartrefi gofal eu bod yn defnyddio staff asiantaeth a dim ond gostyngiad bach a welwyd

mewn arolwg diweddarach i 17%. Roedd y nifer yn sylweddol is i wasanaethau cymorth cartref gyda dim ond 2-3% yn defnyddio staff asiantaeth (Ffigurau 15 a 16).

Ffigur 15. Defnydd cartrefi gofal o staff asiantaeth



Ffigur 16. Defnydd gwasanaethau cymorth cartref o staff asiantaeth




Yn dilyn cyngor AGC, argymhellwyd y dylai gwasanaethau sicrhau eu bod yn defnyddio'r un staff asiantaeth er mwyn cyfyngu ar ledaeniad yr haint rhwng gwasanaethau. Nododd y mwyafrif eu bod yn defnyddio'r un staff asiantaeth (95% o wasanaethau cartrefi gofal a 94% o wasanaethau cymorth cartref) ac arhosodd y ffigurau hyn yn gyson yn ystod cyfnod yr arolwg.

5. Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu

5.1. Ymwybyddiaeth o Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu (wythnosau 14-15 yr arolwg)

Yn ystod arolygon hwyrach, gofynnwyd i ddarparwyr gofal nodi a oeddent yn ymwybodol o Asesiad Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu ac a oeddent yn ei ddefnyddio er mwyn meithrin dealltwriaeth o nifer y staff a nodwyd mewn grwpiau risg uchel. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn ymwybodol o'r Asesiad Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu (sef 76% o gartrefi gofal a 79% o wasanaethau cymorth cartref). Fodd bynnag, awgrymodd bron chwarter ymatebion cartrefi gofal nad oeddent yn ymwybodol o'r asesiad risg neu nad oeddent yn gwybod dim amdano (Ffigur 17).


Ffigur 17. Ymwybyddiaeth o Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu



5.2. Os ydych chi'n ymwybodol o'r asesiad risg, ydych chi wedi nodi unrhyw aelod o'r staff sydd mewn grŵp risg ganolig neu uchel?

O'r gwasanaethau hynny a oedd yn ymwybodol o'r asesiad risg, nododd dros draean o'r cartrefi gofal a'r gwasanaethau cymorth cartref staff mewn grŵp risg uchel. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli 388 o wasanaethau o bosibl lle nodwyd bod staff mewn categori risg uchel (bydd rhai ymatebion wedi'u dyblygu oherwydd efallai fod arolygwyr wedi cysylltu â'r un darparwr gofal fwy nag unwaith) (Ffigur 18).

Ffigur 18. Staff a nodwyd mewn grŵp risg uchel




6. Hyfforddiant staff ar Atal a Rheoli Heintiau

6.1. A yw pob aelod o'ch staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Atal a Rheoli Heintiau yn y chwe mis diwethaf? (wythnosau 16-17 yr arolwg yn unig)

Yn ystod yr arolwg olaf ym mis Gorffennaf, gofynnwyd i'r darparwyr gofal nodi a oedd eu staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar reoli heintiau (IPC) yn y chwe mis diwethaf. Roedd ymatebion cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref yn debyg, gydag ychydig o dan dri chwarter yn nodi eu bod wedi cwblhau hyfforddiant (Ffigur 19).

Ffigur 19. Cwblhau hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau yn y chwe mis diwethaf




6.2. Os cwblhawyd yr hyfforddiant, sut y gwnaed hyn?

Lle cwblhawyd hyfforddiant ar Atal a Rheoli Heintiau, gofynnwyd i wasanaethau nodi sut y gwnaed hyn. Yr opsiwn mwyaf poblogaidd yw 'e-ddysgu' i gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Lle nodwyd 'arall' ar gyfer y math o hyfforddiant yn

ystod galwadau 'dal i fyny' cafwyd mwyafrif o 'hyfforddiant mewn swydd' a'r defnydd o dechnoleg fideogynadledda megis Zoom neu Skype.

Ffigur 20. Y mathau o hyfforddiant ar Atal a Rheoli Heintiau a gafwyd




7. Cyflenwad digonol o adnoddau (PPE, Bwyd, Meddyginiaeth)


7.1. Cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE), bwyd a meddyginiaethau

Yn ystod mis Ebrill 2020, gwnaethom ofyn i ddarparwyr gofal a allent gael gafael ar adnoddau digonol o PPE, bwyd a meddyginiaeth yn ystod y cyfyngiadau symud. O'r holl adnoddau hyn, PPE a achosodd y broblem fwyaf i gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Nid oedd 11% o'r cartrefi gofal na 18% o'r gwasanaethau cymorth cartref yn gallu cael gafael ar ddigon o PPE. Gwellodd y sefyllfa ychydig mewn arolygon dilynol, ond roedd yn dal i fod yn broblem i 5-10% o wasanaethau gofal oedolion (Ffigurau 21 a 22).

Ffigur 21. Cyflenwad digonol o PPE mewn cartrefi gofal



Ffigur 22. Cyflenwad digonol o PPE mewn gwasanaethau cymorth cartref




Nid oedd mynediad i fwyd a meddyginiaeth ddigonol i'w weld yn broblem i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal, ac eithrio ambell wasanaeth. Nododd dros 95% o'r cartrefi gofal a'r gwasanaethau cymorth cartref fod ganddynt fynediad i gyflenwadau bwyd digonol, a dim ond dau wasanaeth cymorth cartref a nododd nad oedd ganddynt fynediad i gyflenwadau digonol o feddyginiaeth.

8. Derbyn preswylwyr newydd (cartrefi gofal) neu becynnau gofal newydd (gwasanaethau cymorth cartref)

8.1. Ydych chi'n derbyn pobl newydd i fyw yn y cartref gofal neu'n derbyn pecynnau gofal newydd ar gyfer cymorth cartref ar hyn o bryd?


Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mehefin 2020 gofynnwyd i'r darparwyr gofal a oeddent yn derbyn pobl newydd i gartrefi gofal neu'n derbyn pecynnau gofal newydd i wasanaethau cymorth cartref ar y pryd. Nododd dros 50% o'r cartrefi gofal nad oeddent yn derbyn preswylwyr newydd i'r gwasanaethau. Arhosodd y ffigur hwn yn gyson drwy gydol y pandemig (Ffigur 23).

Ffigur 23. Derbyn preswylwyr newydd i gartrefi gofal



Mae gwasanaethau cymorth cartref yn dangos tueddiadau gwahanol i gartrefi gofal o ran derbyn pecynnau gofal newydd. Ar ddechrau'r pandemig dim ond 50% a nododd eu bod yn derbyn pecynnau gofal newydd, ond yna wrth i bethau wella mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 83% mewn arolygon diweddarach (Ffigur 24).

Ffigur 24. Derbyn pecynnau gofal newydd i wasanaethau cymorth cartref




8.2. Os nad ydych yn derbyn preswylwyr newydd ar hyn o bryd, beth yw'r rhesymau?

O'r cartrefi gofal hynny nad oeddent yn derbyn preswylwyr newydd i'r gwasanaeth, nodwyd mai capasiti a 'dim lle' oedd y prif resymau. Hefyd mae tystiolaeth o bryderon am breswylwyr newydd â COVID-19 (cynyddu o 22% i 29% cyn gostwng ychydig). Nododd 6% o'r galwadau 'dal i fyny' fod 'prinder staff i ddarparu gofal' yn rheswm arall dros beidio â derbyn preswylwyr newydd ar ddechrau'r pandemig, ond gostyngodd hyn i 2% wedyn (Ffigur 25).

Amrywiol o hyd oedd y rhesymau eraill dros beidio â derbyn preswylwyr newydd i gartrefi gofal, gan gynnwys embargos ar dderbyniadau (naill ai'n wirfoddol neu wedi'u gosod gan awdurdodau lleol), pryderon ynghylch cydnawsedd preswylwyr newydd, cartrefi gofal yn destun cyfyngiadau symud, a diogelu preswylwyr presennol.


Ffigur 25. Rhesymau pam nad yw cartrefi gofal yn derbyn preswylwyr newydd



O'r gwasanaethau cymorth cartref hynny nad oeddent yn derbyn pecynnau gofal newydd mae'r darlun yn ymddangos yn fwy cymhleth. Ar ddechrau'r pandemig roedd 40% o'r galwadau i wasanaethau cymorth cartref yn codi pryderon am breswylwyr newydd â COVID-19, ond gostyngodd y ffigur hwn i 16% wedyn. Fodd bynnag, wrth i'r pryderon leddfu ac wrth i wasanaethau cymorth cartref ddechrau derbyn pecynnau gofal newydd gwelwyd problemau o ran capasiti yn cynyddu (8% i 31%) (Ffigur 26).

Ymhlith y rhesymau eraill dros beidio â derbyn pecynnau gofal newydd i wasanaethau cymorth cartref roedd PPE, diffyg atgyfeiriadau, pryderon am gynnal gwasanaethau presennol, staff/rheolwyr newydd a rhoi'r gorau i rai gwasanaethau.

Ffigur 26. Rhesymau pam nad yw gwasanaethau cymorth cartref yn derbyn pecynnau gofal newydd




9. Pryderon ariannol


9.1. A oes gennych unrhyw bryderon ariannol penodol?

Pan ofynnwyd i ddarparwyr gofal oedolion a oedd ganddynt unrhyw bryderon ariannol penodol yn ystod y pandemig, nododd mwyafrif cymharol uchel nad oedd ganddynt unrhyw bryderon. Dim ond hyd at 7% o'r cartrefi gofal a hyd at 9% o'r gwasanaethau cymorth cartref a nododd fod ganddynt bryderon ariannol. Mae'n werth nodi nad oedd yr arolygwyr a oedd yn gwneud y galwadau efallai'n siarad yn uniongyrchol â'r sawl a oedd yn ymwybodol o faterion ariannol y cwmni, a ddynodir gan y nifer a ddywedodd nad oeddent yn gwybod - hyd at 17% ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref (Ffigurau 27 ac 28).

Ffigur 27. Pryderon ariannol mewn cartrefi gofal



Ffigur 28. Pryderon ariannol mewn gwasanaethau cymorth cartref




9.2. Os oes pryderon ariannol, beth yw eu natur?

Ar gyfer yr 8% o gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref a nododd bryderon ariannol (150 o gartrefi gofal a 55 o wasanaethau cymorth cartref) ymddengys fod y rhesymau yn gymysgedd o gostau staffio uwch, costau adnoddau uwch, llefydd gwag yn lleihau refeniw a chyfuniad o bob un o'r rhain.

Yn ystod y galwadau 'dal i fyny' cynnar, nododd 31% o'r cartrefi gofal fod llefydd gwag yn lleihau refeniw yn bryder ariannol mawr ac ni newidiodd y ffigur hwn bron o gwbl mewn galwadau 'dal i fyny' dilynol. Nododd 23% o gartrefi gofal fod costau adnoddau uwch yn bryder mawr, a chynyddodd y ffigur hwn i 37% mewn galwadau dilynol. Roedd 19% o gartrefi gofal yn poeni bod costau staffio uwch yn broblem ar


ddechrau'r pandemig ond gostyngodd i 12% wrth i bryderon a salwch staff ddechrau sefydlogi (Ffigur 29).

Ffigur 29. Rhesymau dros bryderon ariannol mewn cartrefi gofal



Yn wahanol i gartrefi gofal, costau adnoddau uwch yw'r prif bryder a nodwyd gan 55% o'r gwasanaethau cymorth cartref yn ystod y galwadau 'dal i fyny' cynnar, a wnaeth ostwng i 37% mewn galwadau dilynol. Nododd 20% o'r gwasanaethau cymorth cartref fod llefydd gwag yn lleihau refeniw (h.y. llai o becynnau gofal) yn bryder mawr arall, a wnaeth ostwng 9% mewn galwadau dilynol (Ffigur 30).

Ffigur 30. Rhesymau dros bryderon ariannol mewn gwasanaethau cymorth cartref



10. Cymorth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lechyd Cyhoeddus Cymru

10.1. Ydych chi'n cael y cymorth sydd ei angen arnoch gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd? (wythnosau 1-2, 3-4 yr arolwg)

Ystyriwyd bod cymorth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gadarnhaol iawn ar ddechrau'r pandemig. Amrywiodd hyn o 92% i 94% o gartrefi gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn ystod yr arolygon cynnar. Roedd 87% o'r gwasanaethau cymorth cartref yn teimlo eu bod yn cael cymorth ar y dechrau, a gynyddodd dros alwadau 'dal i fyny' dilynol i 93%.

10.2. Os bu angen i chi gysylltu ag lechyd Cyhoeddus Cymru, pa mor hygyrch fu'r sefydliad a faint o gymorth y gwnaeth ei roi? (wythnos 4 yr arolwg yn unig)

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn isel (33%) lle gofynnwyd i ddarparwyr gofal oedolion sgorio'r cymorth a gafwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y rhan fwyaf o wasanaethau wedi bod mewn cysylltiad neu heb fod angen cysylltu ag lechyd Cyhoeddus Cymru ar ddechrau'r pandemig. O'r gwasanaethau hynny a wnaeth gysylltu, cafodd ei sgorio'n gadarnhaol gan 70% o'r cartrefi gofal a 71% o'r gwasanaethau cymorth cartref. Fodd bynnag, gwnaeth 10% o'r cartrefi gofal a 5% o'r gwasanaethau cymorth cartref hefyd ei sgorio'n negyddol iawn, ond nid yw'r rhesymau dros hyn yn glir.


11. Cefnogi gofal diwedd oes

Pan ofynnwyd i'r darparwyr gofal ymateb ynghylch eu gallu i gefnogi pobl a oedd angen gofal diwedd oes cawsom ymateb isel iawn i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau am hyn.

11.1. *Allwch chi gefnogi pobl sydd angen gofal diwedd oes? Ydych chi'n teimlo'n hyderus am eich gallu i ddarparu gofal diwedd oes o ansawdd da i bobl?*


Pan ofynnwyd i'r darparwyr gofal am eu gallu i ddarparu gofal diwedd oes o ansawdd da i bobl, cawsom ymateb a oedd rhwng 50% a 60% dros gyfnod yr arolwg. Dechreuodd cefnogi gofal diwedd oes mewn cartrefi gofal ar 80% a chynyddodd i 90% mewn arolygon dilynol, gan awgrymu nad oedd rhwng 10% ac 20% o'r cartrefi gofal yn hyderus am eu gallu i ddarparu gofal diwedd oes o ansawdd da i bobl, ac er y gyfradd ymateb isel, mae hyn yn cyfateb i rhwng 80 a 100 o gartrefi gofal (Ffigur 31).

Ffigur 31. Cefnogi gofal diwedd oes o ansawdd da mewn cartrefi gofal



Roedd cefnogi gofal diwedd oes ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref yn amrywio o 50% mewn arolygon cynnar i 82% mewn arolygon dilynol, gan awgrymu nad oedd rhwng 40 a 60 o wasanaethau cymorth cartref yn hyderus am eu gallu i ddarparu gofal diwedd oes o ansawdd da (Ffigur 32).

Ffigur 32. Cefnogi gofal diwedd oes o ansawdd da mewn gwasanaethau cymorth cartref




11.2. Sut y cefnogir gofal diwedd oes?


Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg cynnar, nododd tua 40% o gartrefi gofal a 45% o wasanaethau cymorth cartref fod gofal diwedd oes yn cael ei gefnogi drwy feddygon teulu/CNau (nyrsys cymunedol). Dilynwyd hyn gan 38% o gartrefi gofal a 41% o wasanaethau cymorth cartref yn darparu mynediad i'r feddyginiaeth gywir (Ffigurau 33 a 34).

Nodwyd bod cael ymwelwyr yn llai o flaenoriaeth ac ychydig iawn o gartrefi gofal (tua 150) a oedd yn cynnig yr opsiwn hwn ar ddechrau'r pandemig.

Ffigur 33. Sut mae cartrefi gofal yn cefnogi diwedd oes




Ffigur 34. Sut mae gwasanaethau cymorth cartref yn cefnogi diwedd oes




11.3. Sut y byddech yn sgorio cefnogaeth gofal diwedd oes gan feddygon teulu?

Cawsom gyfraddau ymateb isel pan ofynnwyd i'r darparwyr gofal sgorio cefnogaeth gofal diwedd oes meddygon teulu (a oedd yn amrywio rhwng 15% a 30% o alwadau'r arolwg). O'r cartrefi gofal hynny a wnaeth ymateb, roedd y mwyafrif (rhwng 90% a 95%) yn gadarnhaol ar y cyfan am gefnogaeth meddygon teulu, gyda hyd at 10% wedi profi cefnogaeth gymedrol, neu negyddol. O'r gwasanaethau cymorth cartref hynny a ymatebodd, nododd tua 90% fod eu profiad o feddygon teulu yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda hyd at 10% yn profi cefnogaeth gymedrol, neu negyddol, ganddynt (Ffigurau 35 a 36).

Ffigur 35. Cefnogaeth meddygon teulu ar gyfer gofal diwedd oes mewn cartrefi gofal




Ffigur 36. Cefnogaeth meddygon teulu ar gyfer gofal diwedd oes mewn gwasanaethau cymorth cartref




11.4. *Sut y byddech yn sgorio cefnogaeth gofal diwedd oes gan nyrsys cymunedol (CNau)?*

Roedd cefnogaeth gofal diwedd oes CNau yn debyg i gefnogaeth meddygon teulu fwy neu lai. Nododd 93% o'r cartrefi gofal fod cefnogaeth CN yn gadarnhaol a wnaeth gynyddu i 97% mewn arolygon dilynol. Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref dechreuodd cefnogaeth CNau ar 94% ond gostyngodd wedyn i 89% mewn arolygon dilynol (Ffigurau 37 a 38).

Ffigur 37. Cefnogaeth CNau ar gyfer gofal diwedd oes mewn cartrefi gofal



Ffigur 38. Cefnogaeth CNau ar gyfer gofal diwedd oes mewn gwasanaethau cymorth cartref



11.5. Wrth gefnogi pobl ar ddiwedd eu hoes, a allwch adael i deulu agos ymweld?


Mewn arolygon diweddarach, gwnaethom ofyn unwaith eto i'r darparwyr gofal oedolion a oeddent yn gallu gadael i deulu agos ymweld â phobl ar ddiwedd eu hoes. Roedd y gyfradd ymateb yn wael iawn unwaith eto, sef rhwng 25% a 30%. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y cartrefi gofal (hyd at 687) a oedd bellach yn gadael i deulu agos weld anwyliad ar ddiwedd eu hoes.

12. Mynediad i wasanaethau iechyd cymunedol

12.1. Ydych chi'n cael cefnogaeth dda gan wasanaethau iechyd cymunedol? (wythnosau 3-4 yr arolwg)

Yn ystod arolwg cynnar gwnaethom ofyn i ddarparwyr gofal oedolion ddweud wrthym am y mathau o gefnogaeth roeddent yn eu cael gan wasanaethau iechyd cymunedol. Nododd y rhan fwyaf o'r cartrefi gofal (45%) a'r gwasanaethau cymorth cartref (48%) fod mynediad mynych i feddygon teulu yn flaenoriaeth, a ddilynwyd gan fynediad i feddygon teulu y tu allan i oriau a mynediad i CPNau (Ffigur 39).


Ffigur 39. Mathau o gefnogaeth gan wasanaethau iechyd cymunedol




12.2. Lefel y gefnogaeth a gewch i gael mynediad i feddygon teulu

Yn ystod arolwg cynnar roedd lefel y gefnogaeth i gael gwasanaethau meddygon teulu yn gadarnhaol ar y cyfan i 90% o'r cartrefi gofal ac 88% o'r gwasanaethau cymorth cartref, gyda lefelau cefnogaeth meddygon teulu yn gwella ychydig mewn arolwg dilynol (Ffigurau 40 a 41).

Ffigur 40. Lefel y gefnogaeth gan feddygon teulu i gartrefi gofal




Ffigur 41. Lefel y gefnogaeth gan feddygon teulu i wasanaethau cymorth cartref




12.3. Lefel y gefnogaeth a gewch i gael mynediad i feddygon teulu y tu allan i oriau

Yn ystod arolwg cynnar roedd lefel y gefnogaeth i gael mynediad i feddygon teulu y tu allan i oriau yn gadarnhaol ar y cyfan i 91% o'r cartrefi gofal a 90% o'r gwasanaethau cymorth cartref, gyda'r lefelau hyn yn cynyddu mewn arolwg dilynol (Ffigurau 42 a 43).

Ffigur 42. Lefel y gefnogaeth gan feddygon teulu y tu allan i oriau i gartrefi gofal




Ffigur 43. Lefel y gefnogaeth gan feddygon teulu y tu allan i oriau i wasanaethau cymorth cartref




12.4. Lefel y gefnogaeth a gewch i gael mynediad i CPNau

Yn ystod arolwg cynnar roedd lefel y gefnogaeth i gael mynediad i CPNau yn gadarnhaol ar y cyfan i 89% o'r cartrefi gofal ac 87% o'r gwasanaethau cymorth cartref. Gwnaeth y lefel wella ychydig mewn arolwg dilynol (Ffigurau 44 a 45).

Ffigur 44. Lefel y gefnogaeth i gartrefi gofal gael mynediad i CPNau




Ffigur 45. Lefel y gefnogaeth i wasanaethau cymorth cartref gael mynediad i CPNau




12.5. Lefel y gefnogaeth a gewch i gael mynediad i wasanaethau ambiwlans

Ym mhob arolwg roedd lefel y gefnogaeth i gael mynediad i wasanaethau ambiwlans yn un o'r profiadau mwy cadarnhaol o'r holl wasanaethau iechyd cymunedol. Nododd rhwng 91% a 94% o'r cartrefi gofal a thua 95% o'r gwasanaethau cymorth cartref fod cefnogaeth gwasanaethau ambiwlans yn gadarnhaol ar y cyfan (Ffigurau 46 a 47).

Ffigur 46. Lefel y gefnogaeth i gartrefi gofal gael mynediad i wasanaethau ambiwlans




Ffigur 47. Lefel y gefnogaeth i wasanaethau cymorth cartref gael mynediad i wasanaethau ambiwlans



12.6. Beth fu eich profiad o gael mynediad i apwyntiadau ysbyty ar gyfer cleifion allanol? (wythnosau 14-17 yr arolwg)

Cafodd y rhan fwyaf o'r cartrefi gofal (62%) a'r gwasanaethau cymorth cartref (66%) a gafodd fynediad i apwyntiadau ysbyty ar gyfer cleifion allanol yn ddiweddarach yn y pandemig brofiad 'da' ar y cyfan (Ffigur 48).

Ffigur 48. Profiad o gael mynediad i apwyntiadau ysbyty ar gyfer cleifion allanol




13. Ydych chi wedi gallu cael cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol os oedd ei hangen? (wythnosau 14-17 yr arolwg)

Cafodd y cwestiwn hwn a'r un dilynol gyfradd ymateb uchel iawn (89%) gan adlewyrchu pwysigrwydd mynediad i'r gefnogaeth hon i ddarparwyr gofal oedolion. Ar gam diweddarach y pandemig nododd dros 98% o'r cartrefi gofal a'r gwasanaethau cymorth cartref eu bod wedi gallu cael mynediad i weithiwr cymdeithasol os oedd angen. Dim ond 17 o gartrefi gofal a 10 o wasanaethau cymorth cartref a ddywedodd nad oeddent wedi gallu cael mynediad i gefnogaeth gweithwyr cymdeithasol.

13.1. Os gallwch gael mynediad i weithwyr cymdeithasol, beth fu eich profiad?

Nododd nifer uchel iawn o gartrefi gofal (75%) a gwasanaethau cymorth cartref (68%) fod eu profiad o gael mynediad i weithwyr cymdeithasol yn 'dda', a nododd tua 20% o gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref fod eu profiad yn 'ardderchog' (Ffigur 49).

Ffigur 49. Profiadi o gael mynediad i weithwyr cymdeithasol




14. Rhyddhau cleifion o'r ysbyty

14.1. Beth fu eich profiad o ryddhau cleifion o'r ysbyty?

Pan ofynnwyd i'r darparwyr gofal am eu profiad o ryddhau cleifion o'r ysbyty, roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn isel yn gyffredinol ac ymhell islaw 50% yn ystod cyfnod yr arolwg. Ar y cyfan gwellodd y darlun o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty ychydig i gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref wrth i'r pandemig ddatblygu.


I'r rhan fwyaf o'r cartrefi gofal roedd y profiad o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn dda ar y cyfan - amrywiodd rhwng 54% a 60% mewn arolygon dilynol. Nododd 12% o'r cartrefi gofal eu bod wedi cael profiad gwael o ryddhau cleifion ar ddechrau'r pandemig a gostyngodd hyn fwyfwy i 8% (Ffigur 50).

Ffigur 50. Profiad cartrefi gofal o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ystod y pandemig



I'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth cartref roedd y profiad o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn dda ar y cyfan, amrywiodd rhwng 58% a 65% dros gyfnod yr arolwg. Fodd bynnag, nododd gwasanaethau cymorth cartref hefyd fod angen gwella'r broses ymhellach (Ffigur 51).

Ffigur 51. Profiad gwasanaethau cymorth cartref o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ystod y pandemig




15. Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

15.1. Ydych chi wedi gwneud cais am awdurdodiadau DoLS newydd/diwygiedig dros y tri mis diwethaf o ganlyniad i COVID-19?

Tua diwedd cyfnod yr arolwg gwnaethom ofyn i ddarparwyr gofal a oeddent wedi wedi gwneud cais am awdurdodiadau DoLS newydd neu ddiwygiedig dros y tri mis diwethaf o ganlyniad i COVID-19. Cafwyd cyfradd ymateb gymharol uchel i'r cwestiwn hwn, sef 79%. Nododd 26% o'r cartrefi gofal (149 o ddarparwyr) a 3% o'r gwasanaethau cymorth cartref (tri darparwr) eu bod wedi gwneud cais am DoLS newydd/diwygiedig (Ffigur 52).


Ffigur 52. Darparwyr gofal a wnaeth gais am awdurdodiad DoLS newydd/diwygiedig o ganlyniad i COVID-19



15.2. Os ydych, sawl DoLS?

O'r darparwyr gofal hynny a wnaeth gais am awdurdodiad newydd/diwygiedig, nodwyd cyfanswm o 470 o awdurdodiadau gan 152 o ddarparwyr gofal (149 o gartrefi gofal a tri gwasanaeth cymorth cartref). Ar gyfer y gwasanaethau hyn roedd nifer y DoLS yn amrywio rhwng lleiafswm o un i uchafswm o 15 o awdurdodiadau fesul gwasanaeth. Nodwyd y niferoedd uchaf ar gyfer awdurdodau lleol Abertawe (67), Castell-nedd Port Talbot (50), Wrecsam (49) a Sir Benfro (44). Ni nododd gwasanaethau gofal ym Mro Morgannwg unrhyw awdurdodiadau DoLS newydd/diwygiedig o ganlyniad i COVID-19 (Ffigur 53).

Ffigur 53. Nifer yr awdurdodiadau DoLS newydd/diwygiedig fesul awdurdod lleol




16. Gofynion adnoddau nyrsio

16.1. Ydych chi'n cael trafferth bodloni eich gofynion adnoddau nyrsio?

Dim ond cyfradd ymateb o 35% a gafwyd i'r cwestiwn hwn ac mae'n cynrychioli'r nifer llai o gartrefi gofal sy'n darparu gwasanaeth nyrsio fel rhan o'u pecyn gofal. Tua diwedd cyfnod yr arolwg nododd 84% o gartrefi gofal nad oeddent yn cael unrhyw anhawster i fodloni gofynion adnoddau nyrsio, gydag 11% yn cael rhai anawsterau bach (Ffigur 54).


Ffigur 54. Cartrefi gofal sy'n cael anawsterau i fodloni gofynion adnoddau nyrsio



16.2. Os ydych chi'n cael anawsterau, beth yw'r rhesymau dros hynny?

Ar gyfer y nifer bach o gartrefi gofal (108 o ddarparwyr) a nododd anawsterau wrth fodloni eu gofynion adnoddau nyrsio, y prif resymau a roddwyd oedd o ganlyniad i broblem recriwtio a fodolai eisoes cyn COVID-19 ac am fod staff mewn grwpiau gwarchod (Ffigur 55).

Ffigur 55. Rhesymau dros fethu â bodloni gofynion adnoddau nyrsio




17. Defnyddio dyfeisiau digidol

17.1. A ydych wedi cael unrhyw gyfarpar neu ddyfeisiau digidol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig?

Lansiwyd menter Cymunedau Digidol Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2020 i roi dyfeisiau digidol i ofalwyr, cartrefi gofal a hosbisau er mwyn helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â theulu, ffrindiau a gweithwyr meddygol proffesiynol. Holwyd darparwyr gofal i weld a oedd y cynllun hwn yn cael effaith gadarnhaol arnynt yn ystod pandemig COVID-19.


Nododd 65% o'r cartrefi gofal eu bod wedi cael benthyg cyfarpar digidol megis llechi gan y cynllun yn ystod y pandemig (Ffigur 56).

Ffigur 56. Rhoi benthyg cyfarpar digidol i gartrefi gofal




Dadansoddiad meintiol ar gyfer cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu

1. A all y plant dderbyn addysg?




Dim ond 7% o gartrefi gofal i blant a nododd nad oeddent yn gallu manteisio ar addysg. Nid oedd unrhyw broblemau o ran gallu gwasanaethau maethu i fanteisio ar addysg.

2. A all y plant gael gfael ar wasanaethau eirioli?




Nododd 84% o gartrefi gofal i blant eu bod yn gallu manteisio ar wasanaethau eirioli. O gymharu, nid oedd gwasanaethau maethu yn gallu manteisio ar wasanaethau eirioli i'r un graddau, gyda 22% yn nodi nad oeddent yn gallu manteisio arnynt, ac 11% yn nodi nad oeddent yn gwybod sut i fanteisio arnynt.

3. A yw'r gweithiwr cymdeithasol yn monitro'r lleoliad?




Yn achos y rhan fwyaf o wasanaethau plant, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn monitro lleoliadau, ac eithrio 11% o wasanaethau maethu, a nododd nad oedd gweithwyr cymdeithasol yn monitro lleoliadau.

4. A yw'r plant yn cael cefnogaeth gan CAMHS?



Mae darlun cymysg o ran gallu plant i fanteisio ar gymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant ac Oedolion (CAHMS). Nododd cyfran fwy o wasanaethau plant nad oedd plant yn manteisio ar y cymorth hwn – sef 58% o gartrefi gofal i blant a 44% o wasanaethau maethu.

5. *Pa effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar lefelau staffio eich busnes? (arolwg rhan 2)*



Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau plant wedi parhau'n wydn yn ystod y pandemig, ond nododd ambell un fod yr effaith ar lefelau staffio ar ddechrau'r pandemig yn fawr/ofnadwy. Mewn arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddarach (arolwg rhan 2) nododd y rhan fwyaf o wasanaethau fod yr effaith ar lefelau staffio yn fach neu'n fach iawn.